# Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad ar y teledu a'r radio

2022/23

**Adroddiad**

Cyhoeddwyd 15 Rhagfyr 2023

# Cynnwys

## Adran


Trosolwg ... 3

1. Beth sy'n newydd ar gyfer yr adroddiad hwn? ... 5

2. Pwy sy'n gweithio i ddarlledwyr? ... 9

3. Themâu a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ... 14

4. Y darlun ehangach ... 26

5. Casgliadau a'r camau nesaf ... 30

A1. Amserlen ... 32

A2. Tablau data ... 33

# Trosolwg

Mae adroddiad eleni yn garreg filltir bwysig yn ein hymgyrch i hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad ("TegACh") ym maes darlledu. Am y tro cyntaf, rydym yn adrodd ar amrywiaeth ystod o ddarlledwyr yn ôl ardal ddaearyddol, gan roi'r darlun mwyaf clir i ni hyd yma o bwy sy'n gweithio yn niwydiant darlledu'r DU ac ymhle. Gallwn ddeall yn well beth mae darlledwyr yn ei wneud i gyflawni TegACh, ac adnabod ac olrhain tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, diolch i'n dull newydd o gasglu data:[1]

- **Mae 44% o weithwyr teledu a 54% o weithwyr radio yn y DU wedi'u lleoli y tu allan i Lundain, gyda bron i un o bob chwech wedi'u lleoli yng ngogledd Lloegr**.[2] Mae'r data hwn yn dangos pa mor amrywiol yw'r gweithlu darlledu mewn gwahanol ardaloedd o'i gymharu â'r boblogaeth weithio ehangach yn y wlad neu'r rhanbarth perthnasol.

- **Er gwaethaf recriwtio cyfran uwch o bobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, mae darlledwyr yn dal i gael trafferth cadw'r staff hyn**, gyda niferoedd anghymesur o fenywod, gweithwyr anabl a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn gadael cwmnïau darlledu.

- **Mae diffyg amrywiaeth ar lefelau uwch yn parhau i fod yn broblem.** Er bod menywod a phobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn cael eu cynrychioli'n dda ym maes darlledu yn gyffredinol, maent yn dal yn cael eu tangynrychioli ar lefel uwch reolwyr: 42% o'r uwch reolwyr yn y diwydiant teledu sy'n fenywod, a 36% ar y radio; a 13% o uwch reolwyr yn y diwydiant teledu sydd o grwpiau ethnig lleiafrifol, a 7% yn y diwydiant radio, sy'n is na chyfartaledd y boblogaeth o 48% a 14% yn y drefn honno.

- **Mae pobl anabl yn dal i gael eu tangynrychioli'n sylweddol mewn swyddi ar bob lefel**: dim ond 10% o'r holl weithwyr ac 8% o'r uwch reolwyr a ddarparodd ddata sydd ag anabledd, o'i gymharu â chyfartaledd y boblogaeth o 16%.[3] Mae'r data hefyd yn dangos bod staff anabl yn cael eu tangynrychioli o'u cymharu â meincnodau ar draws pob gwlad a rhanbarth.

- **Mae pobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol yn cael eu tangynrychioli yn y sector darlledu:** ar draws meysydd teledu a radio, mae 28% o'r weithwyr a ddarparodd ddata yn dod o gefndir dosbarth gweithiol, sy'n is na chyfartaledd y boblogaeth yn y DU sef 39%.[4]

- **Mae cyfleoedd sylweddol i uwch arweinwyr wneud mwy i sbarduno newid.** Mae ein set ddata newydd yn dangos bod gan lawer o ddarlledwyr bolisïau arweinyddiaeth TegACh ar waith, ond mae hefyd yn dangos bod datgysylltiad rhwng y polisïau hyn a'u cefnogaeth gan uwch swyddogion gweithredol. Gallai hyn ei gwneud hi'n anoddach gwreiddio TegACh mewn cwmnïau darlledu, a gallai diffyg amrywiaeth ar lefelau uwch waethygu hyn eto.

- **Rhaid i gasglu data barhau i fod yn flaenoriaeth.** Er bod gennym fwy o wybodaeth am y diwydiant nag erioed, mae bylchau yn ein gwybodaeth o hyd – mewn meysydd fel cefndir economaidd-gymdeithasol a lle nad yw data wedi bod ar gael oherwydd newidiadau i systemau darlledwyr, neu yn dilyn prynu/uno cwmnïau. Mae ein canfyddiadau'n cefnogi pwysigrwydd

[1] Mae'r canrannau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata 'gweladwy' – hynny yw, ar weithwyr sydd wedi datgelu gwybodaeth am eu nodweddion ac sydd wedi cydsynio i rannu hyn ag Ofcom, yn hytrach nag ar weithlu cyfan y darlledwyr.

[2] Nid yw'r data meintiol am y gweithlu yn yr adroddiad hwn yn cynnwys data ar gyfer Bauer Media. Edrychwch ar droednodyn 5.

[3] Mae cyfartaledd y boblogaeth ar gyfer pobl ag anabledd yn seiliedig ar bobl economaidd weithgar 16-64 oed.

[4] Ar hyn o bryd nid ydym yn casglu data ar gefndir economaidd-gymdeithasol yn ôl lefel swydd na rôl.

casglu a dadansoddi data am y gweithlu, lle bo hynny’n bosibl, gan awgrymu bod y darlledwyr hynny sydd ag arferion casglu data uwch yn tueddu i fod â gweithluoedd mwy cynrychioliadol.

Bydd Ofcom yn parhau i gefnogi darlledwyr yn eu hymdrechion i wella TegACh, drwy ein hadroddiadau blynyddol a thrwy hwyluso mwy o gydweithio yn y diwydiant. Mae’r data ychwanegol rydym wedi’i gasglu ar amrywiaeth gweithwyr llawrydd ac arferion comisiynu yn pwysleisio pa mor bwysig yw deall TegACh ar draws y gadwyn gynhyrchu gyfan. Dylai fod gan bawb gyfle i weithio yn y sector anhygoel hwn, ac mae hynny’n hanfodol ar gyfer cynhyrchu cynnwys sy’n apelio at bob cynulleidfa ledled y DU.

# 1. Beth sy'n newydd ar gyfer yr adroddiad hwn?

1.1 Dyma seithfed adroddiad blynyddol Ofcom ar Degwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad (TegACh) ym maes Darlledu. Mae ein gwaith casglu data yn darparu cyfoeth o wybodaeth i'n helpu ni a'r diwydiant i ddeall i ba raddau mae'r gweithlu darlledu yn cynrychioli poblogaeth weithio ehangach y DU. Mae hefyd yn datgelu beth mae darlledwyr yn ei wneud i wella cynrychiolaeth ac i hybu tegwch a chynhwysiad ar bob lefel yn eu sefydliadau.

1.2 Aethom ati i ailwampio ein proses casglu data ar gyfer yr adroddiad hwn. Fe wnaethom ddiweddaru ein harolwg meintiol o'r gweithlu ("arolwg o'r gweithlu") a chyflwyno offeryn hunanasesu ansoddol ("offeryn hunanasesu") newydd i roi adborth i ddarlledwyr ar ddatblygu eu strategaethau TegACh. Mae hwn yn ddatblygiad pwysig i ni, wrth i ni ddechrau dadansoddi ac olrhain y ddwy set ddata newydd, gan adeiladu ar ein hadroddiadau blaenorol, i roi darlun gwell o bwy sy'n gweithio ym maes darlledu ac ategu hyn â gwybodaeth newydd am sut mae darlledwyr yn datblygu eu dull gweithredu o ran TegACh. I gael rhagor o fanylion am y newidiadau rydym wedi'u gwneud, darllenwch ein hadroddiad methodoleg.

1.3 Mae'r adroddiad eleni yn edrych ac yn teimlo'n wahanol. Mae'r wybodaeth newydd sydd ar gael yn golygu ein bod wedi gallu nodi themâu allweddol, sy'n berthnasol ar draws y sector cyfan. Yn gyffredinol, nid ydym wedi cynnwys dadansoddiad o welliant cynyddrannol darlledwyr unigol oherwydd bod llai o ddata ar dueddiadau ar gael eleni. [5] [6]

**Sut rydym yn adrodd ar y data**

**Data 'gweladwy':** mae'r canrannau a gofnodwyd ar gyfer gweithwyr cwmnïau darlledu yn seiliedig ar y gweithwyr sydd wedi datgelu gwybodaeth am eu nodweddion ac sydd wedi cydsynio i rannu hyn ag Ofcom, yn hytrach nag ar weithlu cyfan y darlledwyr. Mae'r holl ffigurau yn yr adroddiad ysgrifenedig hwn yn defnyddio'r dull hwn ac rydym yn cyfeirio at hyn fel rhywbeth sy'n seiliedig ar ddata 'gweladwy'.[7] Mae hyn yn wahanol i'n dull gweithredu mewn adroddiadau ysgrifenedig blaenorol, lle'r oeddem yn cynnwys canrannau yn seiliedig ar yr holl weithwyr (data 'cyfanswm'). Rydym yn egluro hyn yn fwy manwl yn ein hadroddiad methodoleg.

---

[5] Eleni, nid yw ein hadroddiadau ar ddata meintiol am y gweithlu yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer Bauer Media, y mae ei weithlu'n cynrychioli 16% o weithwyr radio yn y DU yn 2020/21. Wrth gynnal gwiriadau terfynol cyn cyhoeddi, rhoddodd Bauer wybod i ni am anghysondebau yn y data meintiol roeddent wedi'i gyflwyno i ni. Er mwyn osgoi oedi pellach cyn cyhoeddi ein hadroddiad, fe wnaethom benderfynu hepgor data o Bauer Media wrth adrodd ar y gweithlu yn feintiol. Rydym yn mynd drwywdd y mater hwn gyda Bauer.

[6] Mae ffigurau pennawd ar gyfer y darlledwyr teledu a radio mwyaf (yn seiliedig ar gyfran y gynulleidfa) a'r gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus STV ac S4C wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 (heb gynnwys Bauer Media, fel y nodir uchod).

[7] Er enghraifft, pe bai 80 o bob 100 o weithwyr mewn cwmni darlledu yn darparu gwybodaeth am nodwedd ac yn cydsynio i'w datgelu i Ofcom, byddem yn cyfrifo'r canrannau sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno ar gyfer yr 80 o weithwyr sydd wedi darparu eu data i ni. Byddai'r 20 sy'n weddill yn 'ddata anhysbys'. Mae data ar gyfer canrannau sy'n seiliedig ar ddata 'cyfanswm' a data 'gweladwy' yn unig ar gael yn ein hadroddiad data rhyngweithiol.

**Cymariaethau o un flwyddyn i'r llall:** gan ein bod wedi gwneud gwelliannau eang i'n harolwg o'r gweithlu, mae cafeatau wrth gymharu canfyddiadau newydd â data o flynyddoedd blaenorol. Mae rhai cwestiynau'n newydd, tra mae eraill wedi cael eu diwygio – ar gyfer y rhain gallwn barhau i gymharu data â blynyddoedd blaenorol, ond dim ond ar y lefel uchaf (ee cymharu grwpiau ethnig ehangach).[8] Mae ein cymariaethau o un flwyddyn i'r llall ar lefel diwydiannau cyfun (ee edrych ar y diwydiant darlledu i gyd, neu ar gynnydd yn y sectorau radio neu deledu yn unigol) yn cynnwys darlledwyr gwahanol yn dibynnu, er enghraifft, ar bwy sy'n dal trwydded yn ystod blwyddyn benodol neu ar bwy sydd wedi cwblhau agweddau gwirfoddol ein harolygon.

Ar gyfer ein hofferyn hunanasesu, rydym yn adrodd yn bennaf ar y 34 o ddarlledwr mwy[9] a atebodd gwestiynau gorfodol a gwirfoddol. Mae'r darlledwyr hyn yn fwy tebygol o fod â'r adnoddau i ddilyn arferion gorau ar draws ystod ehangach o feysydd. Rydym hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddadansoddiad o ddarlledwyr sydd â 21-100 o weithwyr yn y DU[10]. Mae hyn yn darparu gwybodaeth sy'n arbennig o berthnasol i sefydliadau llai.

Mae'r data rydym yn ei gynnwys o'n harolwg o'r gweithlu yn ymwneud â gweithwyr yn y DU ym meysydd teledu neu radio; lle rydyn ni'n cyfeirio at 'weithwyr' drwy gydol yr adroddiad hwn, 'gweithwyr yn y DU' rydyn ni'n ei olygu.

Mae rhagor o fanylion am ein harferion adrodd, gan gynnwys ar ddata 'gweledol, data 'cyfanswm' a therminoleg arall, a'r newidiadau i'n harolwg o'r gweithlu, ar gael yn ein hadroddiad methodoleg cysylltiedig.

1.4 Rydym bob amser wedi bod yn glir ynghylch y meysydd lle mae angen i ddarlledwyr ganolbwyntio eu hymdrechion er mwyn gwreiddio amrywiaeth a chynhwysiad yn eu sefydliadau. Ers i ni ddechrau ar y gwaith hwn, rydym wedi gweld gwelliannau sylweddol o ran casglu data yn y sector a rhai gwelliannau o ran cynrychiolaeth. Fodd bynnag, mae ein dull gweithredu newydd yn ein galluogi i roi mwy o wybodaeth am yr hyn a allai fod yn helpu ac yn llesteirio ymdrechion darlledwyr i sicrhau rhagor o newid cadarnhaol. Ein nod, dros amser, yw creu darlun llawer cliriach o sut mae darlledwyr yn esblygu ac yn cefnogi sector darlledu amrywiol a deinamig er budd pawb.

[8] Er enghraifft, gallwn gymharu data o un flwyddyn i'r llall ar gyfer gweithwyr o gefndir gwyn, neu o gefndir ethnig lleiafrifol, ond ni allwn gymharu is-gategorïau unigol, fel 'Dwyrain Asiaidd/Dwyrain Asiaidd Prydeinig'. Edrychwch ar ein hadroddiad methodoleg i gael rhagor o fanylion.


[9] Rydyn ni'n diffinio darlledwyr mwy fel y rheini sydd â mwy na 100 o weithwyr yn y DU, yn ogystal ag MG Alba (fel y nodir yn nhroednodyn 39). Roedd ein hofferyn hunanasesu yn cynnwys cwestiynau gorfodol a gwirfoddol: rydym yn adrodd ar y 37 darlledwr mwy a atebodd y cwestiynau gorfodol a'r 34 darlledwr mwy a atebodd y cwestiynau gwirfoddol. Rydym yn egluro a yw canfyddiad o'r offeryn hunanasesu yn ymwneud â chwestiwn gorfodol neu wirfoddol.

[10] Fel yr eglurir yn ein hadroddiad methodoleg, nid ydym wedi disgrifio'r canlyniadau ar gyfer darlledwyr sydd â 0-20 o weithwyr gan ein bod yn nodi y gallai'r gymhariaeth â darlledwyr mwy fod yn gyfyngedig. Ar gyfer y darlledwyr bach hyn, rydym yn ystyried yr offeryn hunanasesu yn fecanwaith pwysig ar gyfer adborth ar drefniadau TegACh.

# Cipolwg ar y diwydiant - Teledu Ebrill 2022 - Mawrth 2023

**Ymdriniodd yr ymchwil â mwy na 36,000 o weithwyr y diwydiant teledu ar draws 47 o ddarlledwyr**

| 47 | 39 | 36,270 | 6,371 | 5,577 | 20,979 | 2,446 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| o Ddarlledwyr | â >20 o weithwyr | o weithwyr yn y DU | Ymunwyr | Ymadawyr | Wedi'u hyfforddi | Wedi'u dyrchafu |




**Mae'r tri darlledwr mwyaf yn cyfrif am ddau draean o weithwyr yn y DU**

| Darlledwr | % |
|---|---|
| BBC | 35% |
| Sky | 17% |
| ITV | 14% |
| Channel 4 | 4% |
| Paramount | 2% |
| Eraill | 28% |

**Lledaeniad daearyddol y diwydiant wedi'i gofnodi am y tro cyntaf**

**Mae ychydig o dan hanner o weithwyr wedi'u lleoli y tu allan i'r brifddinas**

| Llundain | Tu allan i Lundain |
|---|---|
| 56% | 44% |

| Darlledwr | Tu allan i Lundain |
|---|---|
| BBC | 54% |
| Sky | 51% |
| ITV | 46% |
| Channel 4 | 26% |
| Paramount | 0% |
| Others | 25% |

**29%** o weithwyr o gefndir dosbarth gweithiol (**39%** Meincnod y DU)

## Dadansoddiad o weithwyr yn ôl nodwedd

| | Menywod | Lleiafrif Ethnig | Anabl |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr teledu | 49% | 18% | 10% |
| Uwch reolwyr | 42% | 13% | 8% |
| Meincnod y DU | 48% | 14% | 16% |

| | 50+ oed | LHD+ | Â chrefydd |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr teledu | 22% | 10% | 44% |
| Uwch reolwyr | 42% | 8% | 49% |
| Meincnod y DU | 32% | 3% | 61% |


*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata amrywiaeth darlledwyr a gyflwynwyd mewn ymateb i'n Harolwg o'r Gweithlu yn 2022/23.*

# Cipolwg ar y diwydiant - Radio Ebrill 2022 - Mawrth 2023

**6,707 o weithwyr radio ar draws 90 o ddarlledwyr,**
**(dim ond11 o'r rhai sydd â mwy nag 20 o weithwyr yn y DU)**

| 89 | 11 | 6,707 | 1,268 | 887 | 4,651 | 467 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| o Ddarlledwyr | â >20 o weithwyr | o weithwyr yn y DU | Ymunwyr | Ymadawyr | Wedi'u hyffforddi | Wedi'u dyrchafu |

Noder: mae'r holl ffigurau'n hepgor Bauer Media




**Lledaeniad daearyddol y diwydiant wedi'i gofnodi am y tro cyntaf**

**Mae ychydig dros hanner y gweithwyr wedi'u lleoli y tu allan i Lundain**

| Llundain | Tu allan i Lundain |
|---|---|
| **46%** | **54%** |

BBC 63%
Global 24%

## Dadansoddiad o weithwyr yn ôl nodwedd

| | Menywod | Lleiafrif Ethnig | Anabl |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr radio | 50% | 13% | 8% |
| Uwch reolwyr | 36% | 7% | 8% |
| Meincnod y DU | 48% | 14% | 16% |

| | 50+ oed | LHD+ | Â chrefydd |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr radio | 27% | 11% | 44% |
| Uwch reolwyr | 51% | 11% | 62% |
| Meincnod y DU | 32% | 3% | 61% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata amrywiaeth darlledwyr a gyflwynwyd mewn ymateb i'n Harolwg o'r Gweithlu yn 2022/23.*

# 2. Pwy sy'n gweithio i ddarlledwyr?

2.1 Mae'r tablau isod yn dangos y prif ffigurau o'r arolwg o'r gweithlu eleni. Rydym yn dangos data ar gyfer yr holl weithwyr darlledu yn y DU, o'i gymharu â chyfartaleddau'r boblogaeth weithio yn y DU a sut mae data wedi newid (lle mae modd ei gymharu) ers ein blwyddyn adrodd ddiwethaf y gellir cymharu â hi, sef 2020/21.[11] Gellir dadansoddi'r data a'r tueddiadau ymhellach yn ein hadroddiad data rhyngweithiol ac yn Atodiad 2.

**Ffigur 1: Prif ffigurau'r arolwg o'r gweithlu teledu**

| | Meincnod poblogaeth weithio'r DU[12] | Gweithwyr teledu yn y DU 2022/23 | Newid ers 2020/21 | Uwch reolwyr 2022/23 | Data gweladwy 2022/23[13] | Newid yn swm y data gweladwy ers 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Menywod | 48% | 49% | ↑ 3pp | 43% | 99% | ↑ 1pc |
| Grŵp Ethnig Lleiafrifol | 14% | 18% | ■ Dim newid | 13% | 85% | ↓ 3pp |
| Anabl | 16% | 10% | ■ Dim newid | 8% | 75% | ↓ 1pc |
| 50 oed a hŷn | 32% | 22% | ↑ 1pc | 40% | 90% | ■ Dim newid |
| LDH+ | 3% | 10% | ↑ 1pc | 8% | 68% | ↑ 1pc |
| Crefyddol | 61% | 44% | ↓ 1pc | 49% | 65% | ■ Dim newid |
| Cefndir dosbarth gweithiol | 39% | 29% | ↑ 1pc | - | 44% | ↑ 2pc |

**Ffigur 2: Prif ffigurau'r arolwg o'r gweithlu radio[14]**

| | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Gweithwyr radio yn y DU 2022/23 | Newid ers 2020/21 | Uwch reolwyr 2022/23 | Data gweladwy 2022/23 | Newid yn swm y data gweladwy ers 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Menywod | 48% | 50% | ↓ 1pc | 36% | 99% | ■ Dim newid |
| Grŵp Ethnig Lleiafrifol | 14% | 13% | ↑ 3pp | 7% | 96% | ↑ 1pc |
| Anabl | 16% | 8% | ■ Dim newid | 8% | 92% | ↑ 7pc |
| 50 oed a hŷn | 32% | 27% | ↑ 2pc | 51% | 96% | ↑ 1pc |
| LDH+ | 3% | 11% | ↑ 2pc | 11% | 81% | ↑ 7pc |
| Crefyddol | 61% | 44% | ↓ 1pc | 62% | 84% | ↑ 7pc |
| Cefndir dosbarth gweithiol | 39% | 24% | ■ Dim newid | - | 44% | ↑ 8pp |

---

[11] Yn 2022, fe wnaethom ohirio ein proses adrodd arferol wrth i ni ailwampio ein proses casglu data. Darparodd wyth o'r darlledwyr mwyaf ddata ar gyfer 2021/22 yn wirfoddol. Gweler Ofcom, Tachwedd 2022. https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/247037/tegwch-amrywiaeth-a-chynhwysiad-mewn-teledu-a-radio-2021-22.pdf

[12] Rydym yn cynnwys y rhain i ddarparu ffigur meincnod, hynny yw, ffigur cymharu sy'n dangos sut mae gweithluoedd/gweithwyr cwmnïau darlledu yn cymharu â phoblogaeth y DU yn ei chyfanrwydd (y boblogaeth oedran gweithio fel arfer). Mae manylion y ffynonellau a ddefnyddir ar gyfer pob meincnod ar gael yn yr adroddiad methodoleg.

[13] Canran y gweithwyr a oedd wedi datgelu gwybodaeth am eu nodweddion ac wedi cydsynio i'r wybodaeth gael ei rhannu ag Ofcom ar gyfer rhyw, hil ac ethnigrwydd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a galwedigaeth rhieni (hynny yw, galwedigaeth y sawl a oedd yn ennill y cyflog uchaf yn yr aelwyd pan oedd y gweithiwr yn 14 oed). Mae'r canrannau ar gyfer y rheini o 'gefndir dosbarth gweithiol' yn seiliedig ar alwedigaeth rhieni.

[14] Sylwch nad yw data 2022/23 yn cynnwys data gan Bauer Media.

## Erbyn hyn, mae mwy o fenywod a phobl o grwpiau ethnig lleiafrifol mewn cwmnïau darlledu, er bod llai o gynrychiolaeth ymysg uwch reolwyr

2.2 Mae menywod bellach yn cynrychioli 49% o'r holl weithwyr yn y diwydiant teledu, sy'n gynnydd o 3pc (pwynt canran) ers 2020/21. Mae cynrychiolaeth pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn y diwydiant radio wedi tyfu hefyd, o 10% yn 2020/21[15] i 13% yn 2022/23, ychydig yn is na meincnod poblogaeth y DU (14%).[16]

2.3 Fodd bynnag, ar lefel uwch reolwyr, mae menywod yn dal i gael eu tangynrychioli yn y diwydiannau teledu a radio, ac mae pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn cael eu tangynrychioli yn benodol mewn rolau uwch yn y diwydiant radio. Rydym yn ystyried hyn a'r ffactorau sy'n effeithio ar hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

## Mae pobl anabl yn cael eu tangynrychioli'n barhaus mewn swyddi ar bob lefel. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod pobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol hefyd yn cael eu tangynrychioli

2.4 Er gwaethaf rhywfaint o gynnydd mewn cwmnïau darlledu unigol, o blith y rheini a ddarparodd ddata, ni fu unrhyw newid yng nghyfran y gweithwyr sydd ag anabledd – dim ond 10% ym maes teledu ac 8% ym maes radio, y naill a'r llall yn is o lawer na chyfartaledd y boblogaeth sef 16%.[17] Mae pobl anabl hefyd yn cael eu tangynrychioli ar lefelau uwch, gan gyfrif am ddim ond 8% o uwch reolwyr ym meysydd teledu a radio.

2.5 Er bod swm y data 'gweladwy' yn gyfyngedig, mae'r canfyddiadau'n awgrymu mai dim ond 28% o weithwyr ar draws y cwmnïau teledu a radio a ddarparodd ddata sy'n dod o gefndiroedd dosbarth gweithiol, o'i gymharu â 39% ym mhoblogaeth ehangach y DU.[18]

## Mae data daearyddol newydd cynhwysfawr yn ein galluogi i weld bod grwpiau ethnig lleiafrifol yn cael eu cynrychioli'n dda yn rhai o'r gwledydd a'r rhanbarthau, tra mae pobl anabl yn cael eu tangynrychioli ym mhob rhan o'r DU

2.6 Mae'r data newydd yn ein galluogi ni i weld lle mae gweithwyr darlledu yn y DU wedi'u lleoli, a pha mor amrywiol yw'r gweithlu darlledu mewn gwahanol wledydd a rhanbarthau.[19] Drwy gymharu ein canfyddiadau â'r boblogaeth weithio ehangach yn y gwledydd a'r rhanbarthau hynny, rydym yn gobeithio gallu nodi meysydd penodol o dangynrychiolaeth ym maes darlledu ledled y DU.

---

[15] Sylwch fod data Bauer Media wedi'i gynnwys yn ffigur 2020/21 ond nid yn ffigur 2022/23.

[16] Ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y Farchnad Lafur A09: Statws y farchnad lafur yn ôl grŵp ethnig. Yr holl ddynion a menywod sy'n cael eu cyflogi (gweithwyr cyflogedig a hunangyflogedig). Cyfartaledd Ebrill-Mehefin22, Gorffennaf-Medi22, Hydref-Rhagfyr22, Ionawr-Mawrth23.

[17] Ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y Farchnad Lafur A08: Statws pobl anabl yn y farchnad lafur. Cyfran o'r boblogaeth economaidd weithgar rhwng 16 a 64 oed yn y DU sy'n 'Anabl yn ôl diffiniad Safon wedi'i Chysoni' (Safon GSS). Cyfartaledd Ebrill-Mehefin22, Gorffennaf-Medi22, Hydref-Rhagfyr22, Ionawr-Mawrth23.

[18] Mae gennym 44% o 'ddata gweladwy' ar gyfer teledu a radio. Sylwch nad ydym yn casglu data ar gefndir economaidd-gymdeithasol yn ôl lefel swydd na rôl ar hyn o bryd.

[19] Edrychwch ar ein hadroddiad methodoleg i gael gwybodaeth am yr hyn sy'n newydd yn ein harolwg o'r gweithlu.

2.7 Er enghraifft, gallwn weld bod cynrychiolaeth gweithwyr (ar draws teledu a radio) o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn agos at y meincnodau cenedlaethol neu ranbarthol mewn rhai ardaloedd, ond nid yw hyn yn gwahaniaethu rhwng sut gallai cyfansoddiad y boblogaeth fod yn wahanol rhwng ardaloedd trefol a gwledig mewn gwlad neu ranbarth. Er enghraifft, mae'r data'n dangos bod 26% o weithwyr darlledu yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr o gefndir ethnig lleiafrifol, sydd ychydig uwchlaw cyfartaledd poblogaeth y rhanbarth o 24%, ond nid yw hyn yn dangos y gwahaniaethau yn yr ardal – er enghraifft, yn Birmingham, mae 46% o bobl o grŵp ethnig lleiafrifol, o'i gymharu â 3% yn Swydd Amwythig. Yn yr un modd, er bod 7% o weithwyr darlledu yn yr Alban yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol, sy'n cyd-fynd â chyfartaledd y boblogaeth ar gyfer yr Alban yn gyffredinol, yn Glasgow mae 15% o bobl yn dod o grŵp ethnig lleiafrifol. [20]

2.8 Gan fod llawer o ddarlledwyr wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol, lle gall cynrychiolaeth fod yn wahanol i'r wlad neu'r rhanbarth yn gyffredinol, rydym yn annog darlledwyr i edrych ar eu gweithlu o'i gymharu â'r boblogaeth y maent yn denu gweithwyr ohoni (er enghraifft, ardaloedd gwledig yn erbyn ardaloedd trefol) gan fod llawer o lefelau i'r hyn y mae'r data'n ei ddangos am gynrychiolaeth a'r ddealltwriaeth o hynny.

2.9 Mae'r data hefyd yn dangos bod gweithwyr anabl yn cael eu tangynrychioli o'u cymharu â meincnodau ar draws pob gwlad a rhanbarth. Hyd yn oed pan fydd cynrychiolaeth pobl anabl mewn ardal yn uwch, mae'n dal yn gyson isel ymysg gweithwyr darlledu sy'n gweithio yn y meysydd hynny. Er enghraifft, fel y dangosir yn Ffigur 3, mae pobl anabl yn cynrychioli 15% o'r boblogaeth yn Llundain, ond dim ond 10% o'r gweithwyr ym maes darlledu. Yng Nghymru, mae 22% o'r boblogaeth yn anabl,[21] ond ym maes darlledu, dim ond 10% o'r gweithwyr sy'n anabl o hyd.

2.10 Mae gweithwyr darlledu o gefndiroedd dosbarth gweithiol yn cael eu cynrychioli'n well mewn rhai rhanbarthau, gan gynnwys Gogledd Ddwyrain Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr, ond mae'r gynrychiolaeth yn dal yn is na chyfartaledd poblogaeth y DU ym mhob ardal. Yn wahanol i anabledd, mae'r data[22] yn awgrymu, mewn rhai ardaloedd sydd â chyfran uwch o bobl dosbarth gweithiol[23], fod cynrychiolaeth pobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol hefyd wedi cynyddu yng ngweithluoedd lleol darlledwyr, er bod pobl dosbarth gweithiol yn dal i gael eu tangynrychioli'n sylweddol yn yr ardal leol. Mae data dethol am amrywiaeth fesul gwlad a rhanbarth i'w weld yn Ffigur 3 isod ac mae rhagor o ddata ar gael yn ein hadroddiad data rhyngweithiol.

---

[20] Arolwg Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r Boblogaeth – NomisWeb, Poblogaeth 16-64 oed, Ebrill 22 – Mawrth 23

[21] Mae'r ffigurau meincnod ar gyfer pobl ag anableddau yn seiliedig ar y boblogaeth 'economaidd weithgar'. Edrychwch ar ein hadroddiad methodoleg i gael rhagor o wybodaeth.

[22] Nid oes meincnodau rhanbarthol ar gael ar gyfer cefndir economaidd-gymdeithasol, felly rydym wedi edrych ar ddosbarthiadau economaidd-gymdeithasol presennol yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol fesul rhanbarth.

[23] Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 40% o'r boblogaeth weithio ar gyfartaledd yn unigolion 'dosbarth gweithiol'/ 'cefndir economaidd-gymdeithasol is' ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol. Mae'r ffigurau hyn yn 49% ar gyfer Gogledd Ddwyrain Lloegr, 46% ar gyfer Gorllewin Canolbarth Lloegr, a 44% ar gyfer Dwyrain Canolbarth Lloegr. Nid yw'r cyfrannau'n cynnwys y categori 'amherthnasol', sy'n cynnwys 'L15: Myfyrwyr llawnamser' a 'ddim yn berthnasol'.

**Ffigur 3: Data amrywiaeth yn ôl gwlad a rhanbarth, teledu a radio gyda'i gilydd, 2022/23**[24]

| | Menywod | Meincnod poblogaeth[25] | Grwpiau Ethnig Lleiafrifol | Meincnod poblogaeth[26] | Pobl anabl | Meincnod poblogaeth[27] | Dosbarth gweithiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Alban | 51% | 51% | 7% | 7% | 10% | 21% | 31% |
| Cymru | 49% | 51% | 6% | 5% | 10% | 22% | 29% |
| Gogledd Iwerddon | 45% | 51% | 2% | 4% | 9% | 14% | 33% |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 41% | 50% | 7% | 6% | 11% | 20% | 34% |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 49% | 49% | 13% | 14% | 11% | 20% | 30% |
| Swydd Efrog a Humber | 50% | 50% | 10% | 13% | 11% | 20% | 33% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 47% | 49% | 12% | 14% | 8% | 21% | 36% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 53% | 49% | 26% | 24% | 12% | 19% | 34% |
| Dwyrain Lloegr | 49% | 50% | 6% | 14% | 8% | 19% | 31% |
| De-ddwyrain Lloegr | 47% | 50% | 10% | 13% | 11% | 18% | 23% |
| De-orllewin Lloegr | 52% | 50% | 6% | 6% | 8% | 20% | 28% |
| Llundain | 52% | 48% | 22% | 42% | 10% | 15% | 24% |

2.11 Mae gennym hefyd y set gyntaf o ddata 'trawstoriadol', lle gallwn edrych ar nodweddion cyfun – er enghraifft, gweithwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a chefndiroedd dosbarth gweithiol. Er bod y cwestiynau hyn yn newydd, mae darlledwyr wedi dechrau'n gadarnhaol gyda'u lefelau darparu data.[28] Mae'r ymatebion yma'n nodi dechrau set newydd o ddata tueddiadau y gobeithiwn adeiladu arnynt.

2.12 Mae Ffigur 4 yn dangos bod cyfran uwch o'r gweithwyr (ar draws teledu a radio) sydd o grwpiau ethnig lleiafrifol yn fenywod (57%), o'i gymharu â chyfartaledd y boblogaeth ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol (51%). Mae cynrychiolaeth pobl ag anabledd yn isel ar draws

---

[24] Nid ydym wedi cynnwys cyfartaleddau poblogaeth ar gyfer cefndir economaidd-gymdeithasol yn y tabl hwn, o ystyried nad oes meincnodau rhanbarthol ar gael. Yn absenoldeb meincnodau rhanbarthol ar gyfer cefndir economaidd-gymdeithasol, rydym yn defnyddio meincnodau rhanbarthol ar gyfer statws economaidd-gymdeithasol presennol fel procsi yn unig.

[25] Arolwg Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r Boblogaeth – NomisWeb, Pawb sy'n gyflogedig, Ebrill 22 – Mawrth 23.

[26] Arolwg Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r Boblogaeth – NomisWeb, Poblogaeth 16-64 oed, Ebrill 22 – Mawrth 23.

[27] Arolwg Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r Boblogaeth – NomisWeb, Poblogaeth economaidd weithgar, y DU. Poblogaeth economaidd weithgar graidd neu bobl ag anabledd sy'n cyfyngu ar waith, pawb, Ebrill 22 – Mawrth 23.

[28] Mae gennym 'ddata gweladwy' ar gyfer 61% o weithwyr ar gyfer hil ac ethnigrwydd yn ôl rhyw, 61% ar gyfer hil ac ethnigrwydd yn ôl anabledd, 43% ar gyfer hil ac ethnigrwydd yn ôl cefndir economaidd-gymdeithasol a 42% ar gyfer anabledd yn ôl cefndir economaidd-gymdeithasol.

gweithwyr o gefndir gwyn ac o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, er bod data'n dangos bod hynny'n nes at gyfartaledd y boblogaeth ymysg pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.[29]

2.13 Mae cynrychiolaeth pobl o gefndir dosbarth gweithiol ychydig yn uwch ymysg gweithwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol ac ymhlith gweithwyr ag anabledd.[30] Fodd bynnag, mae meincnodau dangosol[31] yn dangos bod cynrychiolaeth y grwpiau hyn ym maes darlledu hyn yn dal yn is o lawer na chyfartaleddau'r boblogaeth.[32]

**Ffigur 4: Data trawstoriadol, teledu a radio gyda'i gilydd, 2022/23[33]**

| | Menywod | Meincnod poblogaeth[34] | Pobl anabl | Meincnod poblogaeth[35] | Dosbarth gweithiol |
|---|---|---|---|---|---|
| Grwpiau ethnig lleiafrifol | 57% | 47% | 9% | 11% | 31% |
| Gwyn | 50% | 48% | 10% | 19% | 27% |

2.14 Rydym yn annog darlledwyr i rannu a dadansoddi data trawstoriadol – er mwyn galluogi Ofcom i ddechrau olrhain tueddiadau ar draws y diwydiant ac i ystyried goblygiadau eu data trawstoriadol eu hunain ar fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn eu sefydliadau.

[29] Ar draws y boblogaeth weithio, mae data'n dangos bod pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn llai tebygol o nodi bod ganddynt anabledd: Mae 19% o bobl wyn yn dweud bod ganddynt anabledd, o'i gymharu ag 11% o bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol. Ffynhonnell: Ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y Farchnad Lafur A09: Statws y farchnad lafur yn ôl grŵp ethnig.

[30] Mae'r data'n dangos bod 30% o weithwyr darlledu ag anabledd yn dod o gefndir dosbarth gweithiol, o'i gymharu â 27% o weithwyr darlledu heb anabledd.

[31] Rydym wedi gorfod defnyddio gwahanol ffynonellau gyda meincnodau ar gyfer rhai metrigau trawstoriadol – hynny yw, lle nad yw data ar gael o'r un ffynonellau â'r rhai rydym yn eu defnyddio i feincnodi ffigurau cyffredinol.

[32] Gan ddefnyddio'r cefndir economaidd-gymdeithasol presennol fel procsi, mae 45% o bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol mewn galwedigaethau 'dosbarth gweithiol' o'i gymharu â 40% o bobl wyn, ac mae 54% o bobl ag anabledd mewn galwedigaethau 'dosbarth gweithiol' o'i gymharu â 37% o bobl heb anabledd. Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 Cymru a Lloegr, Ystadegau Gwladol ar Ddosbarthiad Economaidd-gymdeithasol (NS-SeC) (10 categori) ac Anabledd (3 chategori). Sylwch fod anabledd yma'n seiliedig ar yr holl breswylwyr arferol yn hytrach na'r boblogaeth 'economaidd weithgar' rydym yn eu defnyddio ar gyfer ein ffigurau meincnod anabledd ledled y DU.

[33] Fel uchod, nid ydym wedi cynnwys cyfartaleddau poblogaeth ar gyfer cefndir economaidd-gymdeithasol yn y tabl hwn, gan nad yw'r rhain ar gael; rydym wedi defnyddio statws economaidd-gymdeithasol presennol fel procsi.

[34] Ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y Farchnad Lafur A09: Statws yn y farchnad lafur yn ôl grŵp ethnig, pawb mewn cyflogaeth, Cyfartaledd Ebrill-Mehefin22, Gorffennaf-Medi22, Hydref-Rhagfyr22, Ionawr-Mawrth23.

[35] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Grŵp ethnig yn ôl iechyd cyffredinol, anabledd a gofal di-dâl. Sylwch fod anabledd yma'n seiliedig ar yr holl breswylwyr arferol yn hytrach na'r boblogaeth 'economaidd weithgar' rydym yn eu defnyddio ar gyfer ein ffigurau meincnod anabledd cyffredinol.

# 3. Themâu a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg

## Cyflwyniad

3.1 Er bod ein harolwg diweddaraf o'r gweithlu yn dweud wrthym pwy sy'n gweithio yn y diwydiant darlledu, mae ein hofferyn hunanasesu newydd yn dweud wrthym sut mae darlledwyr yn datblygu eu dull gweithredu o ran TegACh. Mae'r ddau arolwg yn wahanol, ond yn ategu ei gilydd.[36] Mae dadansoddi canlyniadau'r ddau arolwg gyda'i gilydd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol, gan dynnu sylw at ble mae cynnydd wedi bod a ble mae angen gwneud rhagor o ymdrech.

3.2 Mae'r offeryn hunanasesu yn dangos i ni sut mae darlledwyr yn perfformio yn erbyn pob un o'r saith 'elfen TegACh' sy'n cael sylw yn yr arolwg ac mae'n rhoi sgôr cynnydd i ddarlledwyr ar gyfer pob elfen, sy'n amrywio o 'gychwyn' i 'gyflawni'.[37] Mae hefyd yn helpu darlledwyr i ddeall sut gallant ddatblygu eu trefniadau TegACh ymhellach, gan ystyried yr argymhellion a nodir yn ein canllawiau i ddarlledwyr. Rydym yn trin y flwyddyn gyntaf o gyflwyniadau i'n hofferyn hunanasesu fel cam 'beta', sy'n golygu ein bod yn agored i adborth gan ddefnyddwyr i'n helpu i fireinio'r model, os oes angen, ar gyfer y flwyddyn nesaf.

3.3 Mae Ffigur 5 isod yn dangos canfyddiadau pump o'r elfennau TegACh.[38] Mae'n dangos bod cyfran uchel o'r darlledwyr mwy[39] wedi dweud wrthym eu bod wedi gwneud y cynnydd mwyaf yn yr elfennau 'Diwylliant a Llais' a 'Strategaeth ac Arweinyddiaeth', tra maent yn gyffredinol yn credu bod ganddynt fwy o waith i'w wneud ar yr elfen 'Casglu, Monitro a Gwerthuso Data'. Rydym wedi gweld tuedd debyg ar gyfer darlledwyr sydd â 21-100 o weithwyr.


[36] I gael rhagor o wybodaeth am yr arolygon, edrychwch ar ein hadroddiad methodoleg.

[37] Dyma oedd y pedwar sgôr cynnydd yn yr arolwg: Dechrau: Efallai y bydd angen cymorth arnoch i ddechrau ar eich trefniadau TegACh; Wedi Ymrwymo: Efallai y bydd angen cymorth arnoch i fwrw ymlaen â'ch trefniadau TegACh; Cynnydd: Efallai y bydd angen cymorth arnoch i fesur llwyddiant eich trefniadau TegACh; Cyflawni: Rydych yn gwneud yn dda gyda'ch trefniadau TegACh.

[38] Mae canfyddiadau'r ddwy elfen arall – gweithwyr llawrydd a chomisiynu – wedi'u nodi yn Adran 4.

[39] Rydym wedi canolbwyntio ar y darlledwyr mwy (yr ydym wedi'u diffinio fel y rheini sydd â mwy na 100 o weithwyr yn y DU, yn ogystal ag MG Alba) sy'n fwy tebygol o fod â'r adnoddau i ddilyn yr arferion gorau ar draws ystod ehangach o feysydd. Mae effaith eu trefniadau TegACh ar y gweithlu darlledu hefyd yn debygol o fod yn fwy oherwydd nifer y bobl maen nhw'n eu cyflogi. Mae MG Alba wedi'i gynnwys yn y diffiniad hwn: er bod ganddo lai na 100 o weithwyr yn y DU, mae'n cyfrannu at wasanaeth cyhoeddus (BBC Alba). Lle bo hynny'n berthnasol, rydym hefyd yn cymharu sut mae'r canlyniadau'n debyg neu'n wahanol i rai darlledwyr llai.

**Ffigur 5: Offeryn hunanasesu: lefelau datblygu darlledwyr mwy yn ôl elfen TegACh**




## Blaenoriaethau i ddarlledwyr ar gyfer y 12 mis nesaf

3.4 Eleni, mae canlyniadau ein harolygon wedi tynnu sylw at dri maes allweddol a ddylai, yn ein barn ni, fod yn flaenoriaethau i ddarlledwyr sy'n ceisio adeiladu ar gynnydd i wreiddio amrywiaeth a chynhwysiad yn eu sefydliadau:

## Blaenoriaeth 1: dylai darlledwyr fanteisio i'r eithaf ar y gwerth a'r ddealltwriaeth y gall eu data TegACh eu darparu

### Mae darlledwyr yn casglu ystod eang o ddata, gan gynnwys data newydd ar amrywiaeth yn ôl lleoliad daearyddol

3.5 Mae darlledwyr yn darparu amrywiaeth eang o ddata TegACh i Ofcom a, gan ddefnyddio'r offeryn hunanasesu, mae'r darlledwyr mwy yn sgorio'n dda ar y cyfan o ran monitro amrywiaeth o nodweddion. Dywedodd 95% o'r darlledwyr mwy a ymatebodd eu bod yn monitro nodweddion gorfodol rhyw, hil ac ethnigrwydd ac anabledd,[40] gan gynnwys ar lefel uwch reolwyr. Dywedodd 85% eu bod yn monitro nodweddion gwirfoddol.[41] Mae cyfran y darlledwyr sydd â 21-100 o weithwyr sy'n dweud eu bod yn monitro'r nodweddion gorfodol a gwirfoddol yn is.[42]


3.6 Mae Ffigur 6 isod yn dangos canlyniadau'r darlledwyr mwy o'n hofferyn hunanasesu ar gyfer cwestiynau dethol yn y maes 'Casglu, Monitro a Gwerthuso Data'.

[40] Cwestiwn gorfodol, a atebwyd gan 37 o ddarlledwyr mwy. Mae hyn yn cynnwys 41% a ddywedodd 'Ydyn – mae hyn yn llwyddiannus ac yn sicrhau canlyniadau' a 54% a ddywedodd 'Ydyn – mae hyn wedi cael ei lansio ac yn datblygu'.

[41] Cwestiwn gwirfoddol, a atebwyd gan 34 o ddarlledwyr mwy. Y nodweddion gwirfoddol yw hunaniaeth o ran rhywedd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, cefndir economaidd-gymdeithasol, cyfrifoldebau gofalu a lleoliad daearyddol.

[42] Dywedodd 75% o ddarlledwyr gyda 21-100 o weithwyr wrthym eu bod yn monitro'r nodweddion gorfodol a dywedodd 69% wrthym eu bod yn monitro'r nodweddion gwirfoddol. Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan 16 o ddarlledwyr.

**Ffigur 6: Offeryn hunanasesu: Canfyddiadau'r elfennau Casglu, Monitro a Gwerthuso Data (darlledwyr mwy)[43]**





3.7 Er mwyn deall yn well pa mor effeithiol yw'r ffordd maen nhw'n mynd ati i gasglu data, rydyn ni wedi cynnwys adran yn yr hunanasesiad i ddarlledwyr ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ganddyn nhw am gasglu, monitro a gwerthuso data. Darparwyd gwybodaeth i ni gan rai darlledwyr mwy am sut maen nhw'n defnyddio gwybodaeth am ddata i: hybu eu strategaethau TegACh; neu i sicrhau bod cynnydd yn cael ei adolygu a'i drafod ar lefelau uwch.

3.8 Dywedodd bron pob un (91%) o'r darlledwyr mwy eu bod yn cyfathrebu er mwyn sicrhau bod eu data amrywiaeth yn fwy cyflawn. Yn gadarnhaol, gallwn weld yn Ffigur 7 isod bod 'bwlch data' bach iawn ar gyfer nodweddion rhyw, oedran, a gwlad a rhanbarth. Gall bylchau data ddigwydd oherwydd nifer o ffactorau, o ddarlledwyr ddim yn casglu data, i weithwyr yn peidio â rhannu eu gwybodaeth bersonol â'u cyflogwr neu ddim yn rhoi eu caniatâd i'w rhannu ag Ofcom. Mae cynnydd hefyd yn cael ei wneud o ran cael gafael ar ddata mewn perthynas â rhai nodweddion gwirfoddol, fel galwedigaeth rhieni a chyfeiriadedd rhywiol (gweler Ffigur 8 isod).

[43] Roedd y cwestiynau wedi'u marcio gyda * yn orfodol i ddarlledwyr â mwy nag 20 o weithwyr yn y DU. Atebodd 37 o ddarlledwyr mwy y cwestiynau gorfodol ac atebodd 34 o ddarlledwyr mwy y cwestiynau gwirfoddol. Pan fyddwn yn cyfeirio at gyfrannau o ddarlledwyr a ddarparodd ddata mewn ymateb i gwestiynau unigol, mae'r cyfrannau'n seiliedig ar y cyfansymiau hyn o ddarlledwyr mwy a ymatebodd i'r cwestiwn hwnnw (yn dibynnu ar a yw'r cwestiwn yn orfodol neu'n wirfoddol).

**Ffigur 7: Ciplun yn dangos cyfran y data a ddatgelwyd i Ofcom yn ôl nodwedd, 2022/23**[44]




3.9 Rydym wedi gweld cyfraddau ymateb uchel i rai o'r cwestiynau newydd a/neu ddiwygiedig a ofynnwyd gennym yn arolwg y gweithlu eleni. Rydym yn croesawu'n arbennig y lefelau trawiadol o ddata ar leoliad daearyddol gweithwyr, a ddarparwyd ar gyfer teledu a radio, gan gynnwys 90% o weithwyr teledu a 94% o weithwyr radio.

3.10 Mae cyfleoedd i ddarlledwyr elwa ar y mewnwelediad y gall y data hwn ei ddarparu: gellir ei ddefnyddio hefyd i helpu i nodi lle nad yw gweithluoedd darlledwyr yn gynrychioladol o'r gweithlu sydd ar gael mewn gwlad neu ranbarth penodol, a gallai helpu darlledwyr i asesu sut mae mynd i'r afael â'r prinder sgiliau mewn nhw'n ei wynebu. Gallai'r data hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio gan ddarlledwyr i osod targedau mwy uchelgeisiol i'w hunain mewn rhai meysydd yn y dyfodol. Rydym am weld economi greadigol sy'n ffynnu ledled y DU. Drwy ddefnyddio talent amrywiol ym mhob gwlad a rhanbarth, rydyn ni o'r farn y bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau cynrychiolaeth a phortread mwy dilys ac y bydd, yn ei dro, o fudd i gynulleidfaoedd.

## Ond mae bylchau o hyd, yn enwedig mewn perthynas â chefndir economaidd-gymdeithasol

3.11 Mae'r bwlch data ar gyfer hil ac ethnigrwydd ac ar gyfer anabledd yn y diwydiant yn gyffredinol yn gymharol fach. Er hynny, rydym yn disgwyl i ddarlledwyr barhau i weithio gyda'u staff i sicrhau bod eu data yn fwy cyflawn yn hyn o beth, o ystyried pa mor bwysig yw deall y meysydd hyn. Mae Ffigur 8 yn tynnu sylw at sut mae'r cynnydd cyfyngedig o ran cau'r bylchau data hyn dros amser yn dal i effeithio ar y darlun ar gyfer rhai nodweddion.


3.12 Mae ein canllawiau yn cynnwys argymhellion i helpu darlledwyr perthnasol i ddatblygu eu trefniadau TegACh yn unol ag amodau eu trwydded.[45] Er enghraifft, rydym yn egluro bod angen systemau priodol ar ddarlledwyr perthnasol er mwyn monitro'r holl nodweddion gorfodol (rhyw, hil/ethnigrwydd ac anabledd) o leiaf. Rydym yn nodi bod rhai darlledwyr, mewn ymateb i'n hofferyn hunanasesu, wedi dweud wrthym nad ydynt yn monitro

[44] Mae'r cyfrannau hyn yn ymwneud â'r gweithwyr a ddarparodd ddata ac a roddodd ganiatâd iddo gael ei rannu ag Ofcom ar gyfer pob un o'r 136 o ddarlledwyr a ymatebodd i'n harolwg o'r gweithlu.

[45] Fel y nodir yn ein canllawiau, dim ond ii ddarlledwyr (neu grwpiau o gwmnïau) sy'n cyflogi dros 20 o bobl mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau darlledu trwyddedig ac sydd wedi'u hawdurdodi i ddarlledu am fwy na 31 diwrnod y flwyddyn y mae'r rhwymedigaethau i osod amodau mewn trwyddedau darlledwyr sy'n mynnu bod y trwyddedeion yn gwneud trefniadau i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn cyflogaeth ar sail rhyw, hil/ethnigrwydd ac anabledd yn berthnasol.

amrywiaeth eu gweithlu mewn perthynas â'r nodweddion hyn.[46] Gall hyn egluro rhai o'r bylchau data ar gyfer y nodweddion hyn, er ein bod yn nodi y gallai'r bylchau data hyn/data anhysbys fod oherwydd nifer o ffactorau (ee data heb ei gasglu, byddai'n well gan y gweithiwr beidio â dweud, heb roi caniatâd i rannu ag Ofcom). Byddwn yn mynd ar drywydd hyn gyda darlledwyr perthnasol er mwyn deall yn well eu hymateb i'n hofferyn hunanasesu a'r rhesymau dros beidio â chasglu a/neu ddarparu data i Ofcom.

**Ffigur 8: Tueddiadau yn y 'bwlch data' ar gyfer nodweddion dethol, pob darlledwr**




3.13 Mae casglu data economaidd-gymdeithasol yn dal yn faes cymharol newydd i rai darlledwyr ac mae'r lefel dychwelyd ar gyfer ein cwestiynau ar gefndir economaidd-gymdeithasol yn dal yn gymharol isel o'i gymharu â rhai nodweddion rydym yn eu monitro. Rydym yn cydnabod yr heriau o ran casglu data yn y maes hwn ac rydym yn gweld rhywfaint o gynnydd. Er enghraifft, roedd y bwlch data ym maes teledu ar gyfer galwedigaeth rhieni yn 56% yn 2023, i lawr o 74% pan wnaethom ddechrau casglu'r wybodaeth hon am y tro cyntaf yn 2019. Ym maes radio, roedd y bwlch data hefyd yn 56% yn 2023, ond dim ond dau ddarlledwr oedd â mwy nag 20 o weithwyr wnaeth ddarparu data yn hyn o beth.

3.14 Rydym yn annog darlledwyr i wella'r gwaith o gasglu data yn hyn o beth. Mae mesur a deall cefndir economaidd-gymdeithasol yn hollbwysig o ran gwella dealltwriaeth darlledwyr o'r agwedd bwysig hon ar eu gweithlu ac o ran sut mae'n rhyngweithio â nodweddion eraill. Mae cefndir economaidd-gymdeithasol yn ganolog i lawer o'r cwestiynau trawstoriadol newydd rydym wedi'u cyflwyno. Mae dadansoddi'r data hwn yn ôl lefel swydd hefyd yn ddymunol o ystyried yr wybodaeth y gall ei darparu, er enghraifft, darparu dealltwriaeth ynghylch a yw tangynrychiolaeth gweithwyr o gefndir economaidd-gymdeithasol is yn fwy amlwg ar lefelau uwch.

3.15 Ar hyn o bryd, nid ydym yn gofyn i ddarlledwyr gyflwyno data economaidd-gymdeithasol yn ôl lefel swydd i Ofcom oherwydd mae lefel y data economaidd-gymdeithasol cyffredinol rydym yn ei gael yn dal yn gymharol isel ac nid oes llawer o ddata meincnodi ar gael. Fodd

[46] Mewn ymateb i'r cwestiwn canlynol: Ydych chi'n monitro amrywiaeth eich gweithlu, gan gynnwys y rheini sydd mewn rolau uwch, i adnabod nodweddion gorfodol sy'n cael eu tangynrychioli, yn ôl anabledd, hil a rhyw?*

bynnag, byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn ac wrth i setiau data ddatblygu, byddwn yn ystyried a ddylid ychwanegu hyn at ein harolwg o'r gweithlu yn y dyfodol.

3.16 Eleni, fe wnaethom gyflwyno cwestiwn newydd ar gyfrifoldebau gofalu. Cyflwynwyd data ar gyfer 9% o weithwyr ym maes teledu a 6% ym maes radio. Rydym yn cydnabod y bydd y niferoedd yn isel yn y flwyddyn gyntaf hon, ond rydym yn croesawu cyfraniadau'r darlledwyr hynny a ddarparodd ddata.[47] Gallwn weld bod 38% o'r gweithwyr a atebodd wedi dweud bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu, sy'n llawer uwch na chyfartaledd poblogaeth y DU sef 8%. Mae'r ffigur uwch hwn yn debygol fod yn cael ei yrru gan rai darlledwyr sy'n defnyddio diffiniad ehangach o gyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys gweithwyr sy'n darparu gofal plant o ddydd i ddydd (nid yw'r ffigur cyfartalog rydym wedi'i ddefnyddio ar gyfer y boblogaeth yn gwneud hynny).[48] Y flwyddyn nesaf, byddwn yn ei gwneud yn fwy amlwg nad yw ein cwestiwn am gyfrifoldebau gofalu yn cynnwys gofal plant, er mwyn i ni allu deall yn well sut mae cynrychiolaeth pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu sy'n gweithio ym maes darlledu yn cymharu â chyfartaledd poblogaeth ehangach y DU.[49]

## Mae angen i'r broses o gasglu data barhau i fod yn flaenoriaeth os yw am barhau i ychwanegu gwerth

3.17 Ni all adroddiadau TegACh ond fod cystal â'r data a gesglir. Mae'n hanfodol bod darlledwyr yn cynnal, a lle bo angen, yn ymdrechu i wella ansawdd a swmp y data maen nhw'n ei gasglu, os ydyn nhw am elwa'n llawn ar y manteision i'w sefydliadau. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i barhau i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol am yr hyn a allai fod yn helpu neu'n llesteirio cynnydd darlledwyr, ac i greu darlun cliriach o sut mae'r sector yn esblygu.

3.18 Mae cynnwys rhai darlledwyr newydd yn y data eleni, sydd efallai ddim ond megis dechrau monitro eu gweithlu, wedi effeithio ar ein ffigurau ar gynnydd mewn rhai meysydd casglu gwybodaeth feintiol. Pan fydd darlledwyr yn dechrau monitro nodweddion newydd, byddem yn eu hannog i wneud hynny'n gynhwysfawr o'r dechrau (ee drwy gynnwys nodweddion trawstoriadol neu ar lefel swydd). Rydym hefyd yn ymwybodol o rai achosion lle mae darlledwyr wedi cael problemau gyda data, a achosir gan newid systemau a/neu gan uno a phrynu . Byddem yn annog darlledwyr i flaenoriaethu cynllunio ar gyfer trosglwyddo data TegACh yn yr amgylchiadau hyn, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn sicrhau nad yw data TegACh gwerthfawr am y gweithlu yn cael ei golli neu'n cael ei wneud yn annefnyddiadwy.

3.19 Mae cymharu canlyniadau ein hofferyn hunanasesu â'r arolwg o'r gweithlu hefyd yn dangos i ni fod darlledwyr mwy sy'n 'cyflawni' neu'n 'gwneud cynnydd' ym maes casglu data yn tueddu i fod â gweithlu mwy cynrychioliadol, o'i gymharu â'r rheini sy'n 'dechrau' neu 'wedi ymrwymo', gan bwysleisio ymhellach pa mor bwysig yw hi fod darlledwyr yn adnabod eu gweithlu eu hunain er mwyn hybu amrywiaeth. Er enghraifft, mae ein data'n dangos bod

[47] Y darlledwyr gyda dros 20 o weithwyr yn y DU a oedd wedi darparu data ar gyfrifoldebau gofalu oedd BFBS, ITV, Local TV Ltd, News UK, RMG Operations a Wireless Group.

[48] Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyfran y preswylwyr arferol 5 oed a hŷn yng Nghymru a Lloegr sy'n darparu unrhyw nifer o oriau o ofal di-dâl bob wythnos. Gall gofalwr di-dâl fod yn gofalu am rywun, neu'n rhoi help neu gefnogaeth i rywun sydd â chyflwr iechyd meddwl neu gorfforol tymor hir, salwch neu broblemau yn ymwneud â henaint.

[49] Roedd ein harolwg o'r gweithlu yn gofyn y cwestiwn canlynol am gyfrifoldebau gofalu: "Sawl gweithiwr yn y DU sy'n gofalu am rywun, neu'n rhoi help neu gefnogaeth i rywun, oherwydd bod ganddo gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol tymor hir, neu broblemau yn ymwneud â'u hoedran?".


menywod a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn cael eu cynrychioli'n well mewn darlledwyr mwy sy'n 'cyflawni' neu'n 'gwneud cynnydd'.[50]

## Blaenoriaeth 2: gall uwch arweinwyr wneud mwy i hybu newid

### Mae ymgysylltiad uwch reolwyr â gwaith TegACh yn addawol ond yn dameidiog

3.20 Canfu ein hofferyn hunanasesu fod uwch arweinwyr a rheolwyr mewn llawer o'r cwmnïau darlledu mwy eisoes yn dangos ymrwymiad i hyrwyddo TegACh yn eu sefydliadau: Dywedodd 85% o'r darlledwyr mwy wrthym fod ganddynt uwch hyrwyddwyr neu noddwyr TegACh i ddarparu arweinyddiaeth TegACh weladwy a dywedodd y rhan fwyaf (71%) fod gan eu harweinwyr amcanion TegACh a bod strwythurau llywodraethu TegACh ar waith (67%).


**Ffigur 9: Offeryn hunanasesu: ymatebion i gwestiynau dethol am arweinyddiaeth uwch ar TegACh (darlledwyr mwy)**




3.21 Fodd bynnag, dywedodd hanner y darlledwyr mwy (50%) nad yw eu huwch arweinwyr a'u rheolwyr yn adolygu tueddiadau mewn data amrywiaeth ar gyfer absenoldeb, disgyblaeth, cwynion a honiadau o aflonyddu, bwlio a gwahaniaethu; a dywedodd bron i draean (30%) nad yw eu huwch arweinwyr yn adolygu tueddiadau'r gweithlu a data 'byw' a gasglwyd yn ddiweddar yn rheolaidd nac yn cymryd camau amlwg i hybu TegACh. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod cyfleoedd i arweinwyr ymgysylltu ymhellach â'u data TegACh i hybu newid.

[50] Er nad oes fawr o wahaniaeth o ran cynrychiolaeth pobl ag anabledd.

### Ffigur 10: Offeryn hunanasesu: ymatebion i gwestiynau dethol ar arweinyddiaeth TegACh uwch (darlledwyr mwy)




3.22 Mae’r data’n awgrymu bod darlledwyr mwy y mae eu huwch arweinwyr yn ymwneud mwy â TegACh yn tueddu i fod â gweithluoedd mwy cynrychioliadol. Ar gyfer y cwmnïau darlledu mwy hynny a ddywedodd wrthym fod gan eu huwch arweinwyr amcanion TegACh ac sy’n cymryd camau i hybu TegACh (yn enwedig y rheini sy’n adolygu tueddiadau’r gweithlu a data byw a gasglwyd yn ddiweddar), mae eu data am y gweithlu yn dangos bod ganddynt gynrychiolaeth well ar gyfer menywod a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.[51] [52]


## Mae diffyg amrywiaeth ymhlith uwch reolwyr yn parhau i fod yn broblem

3.23 Pan fyddwn yn siarad am rôl uwch reolwyr, credwn ei bod hefyd yn bwysig edrych ar amrywiaeth y bobl yn y rolau hynny. Gall cael uwch dîm rheoli mwy cynrychioliadol helpu i hybu newid yng ngweddill y gweithlu. Eleni, roeddem wedi rhoi diffiniad culach o uwch reolwyr i ddarlledwyr, er mwyn sicrhau bod adroddiadau ar y grŵp dylanwadol hwn yn gyson ar draws y sector. Roedd y diffiniad wedi’i gyfyngu i’r uwch dîm arwain, penaethiaid adrannau a phrif swyddogion, ac mae’n golygu ei bod yn haws i ni nodi lle mae tangynrychiolaeth ymysg y rheini sydd â’r pŵer i greu newid.

[51] Nid oes gennym ddigon o ddata gweladwy ar anabledd gan ddarlledwyr sydd â thimau arwain llai cysylltiedig i wneud yr un cymariaethau ar gyfer y nodwedd hon.

[52] At ddibenion y dadansoddiad hwn, rydym wedi cymharu’r rhai a atebodd “Ydyn – mae hyn yn llwyddiannus ac rydym yn cyflawni canlyniadau” ac “Ydyn – rydyn ni wedi lansio hyn ac yn datblygu ein dull gweithredu” â’r rhai a atebodd “Na – nid ydym wedi dechrau hyn” a “Na – ond rydym wedi ymrwymo i gynllun ac rydym yn gwneud cynnydd”.

**Ffigur 11: Uwch reolwyr (%) yn y diwydiannau teledu a radio, pob gweithiwr yn y DU**




3.24 Rydym yn siomedig o weld lefelau tangynrychiolaeth pobl o gefndiroedd amrywiol mewn rolau arwain uwch. Mae Ffigur 11 uchod yn dangos bod menywod, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a phobl anabl i gyd yn cael eu tangynrychioli yn y rolau uchaf ym meysydd teledu a radio, o'u cymharu â meincnodau'r DU ac, yn y rhan fwyaf o achosion, o'u cymharu â'u cynrychiolaeth ymysg yr holl weithwyr darlledu:

- Mae menywod yn cael eu tangynrychioli mewn uwch rolau ym maes radio, gan gyfrif am 36% o uwch arweinwyr ym maes radio (12 pwynt canran o dan y meincnod) a 42% o uwch arweinwyr ym maes teledu (6 pwynt canran o dan y meincnod).
- Dim ond 7% o uwch reolwyr radio sy'n bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, 7 pwynt canran o dan y meincnod. Mae cynrychiolaeth yn nes o lawer at y meincnod yn y diwydiant teledu, sef 13%.
- Mae pobl anabl yn cynrychioli dim ond 8% o'r uwch reolwyr yn y diwydiant teledu (8 pwynt canran yn is na'r meincnod) a 8% yn y diwydiant radio (8 pwynt canran yn is na'r meincnod).

3.25 Gan ein bod wedi newid sut rydym yn casglu data uwch reolwyr, ni allwn wneud cymariaethau uniongyrchol o un flwyddyn i'r llall; mae eleni'n nodi dechrau newydd o ran y ffordd rydym yn monitro ac yn adrodd ar uwch arweinwyr. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn cadw llygad barcud arno dros y blynyddoedd nesaf.

## Mae cyfleoedd i ddarlledwyr weithredu'n fwy penodol i gynyddu cynrychiolaeth ar lefelau uwch

3.26 Bydd tangynrychiolaeth mewn rolau uwch yn amrywio rhwng darlledwyr ac mae'n bwysig bod darlledwyr yn gallu nodi lle mae rhai grwpiau'n cael eu tangynrychioli yn eu sefydliadau eu hunain. Felly, dylai darlledwyr sicrhau eu bod yn monitro amrywiaeth y gweithlu'n rheolaidd ymysg uwch arweinwyr, yn ogystal â'u gweithlu'n gyffredinol.

3.27 Fodd bynnag, fel y dangosir yn Ffigur 10, dywedodd 41% o'r darlledwyr mwy wrthym nad ydynt ar hyn o bryd yn nodi tangynrychiolaeth yn eu huwch dîm o'i gymharu â meincnodau perthnasol. Ar ben hynny, dywedodd bron i chwarter (24%) o'r ymatebwyr hyn nad ydynt ar hyn o bryd yn cymryd camau sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth recriwtio i sicrhau amrywiaeth ar lefelau uwch, a dywedodd dros draean (38%) nad oes ganddynt drefniadau i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth mewn perthynas â chynllunio olyniaeth a recriwtio mewnol, yn enwedig ar gyfer rolau uwch.

3.28 O ystyried pwysigrwydd uwch arweinwyr o ran sbarduno newid mewn TegACh, dylai darlledwyr ystyried y mesurau mwyaf effeithiol i hybu amrywiaeth ymysg uwch arweinwyr.

## Blaenoriaeth 3: parhau i ganolbwyntio ar gadw a datblygu

3.29 Eleni, rydym yn cryfhau ein negeseuon ynghylch cadw a datblygu. Fe wnaethom godi pryderon yn 2021 ynghylch y niferoedd anghymesur o bobl o rai grwpiau a dangynrychiolir sy’n gadael y diwydiant, gan alw am ragor o ymdrechion i sicrhau cynnydd cynaliadwy o ran cadw amrywiaeth eang o weithwyr a helpu pobl i ddatblygu. Gall canolbwyntio ar gynhwysiad helpu sefydliadau i gadw staff a bod yn ffordd allweddol o gynyddu amrywiaeth y gweithlu, ond er mwyn bod yn effeithiol, rhaid gwreiddio arferion cynhwysol yng nghraidd y sefydliadau hyn, a allai alw am newid systemig a diwylliannol.

### Mae lefelau cadw staff yn dal yn isel ymysg rhai grwpiau sy’n cael eu tangynrychioli

3.30 Er bod menywod yn cael eu cynrychioli’n dda yn y diwydiant radio (50%), maen nhw’n dal i gyfrif am gyfran uwch o’r bobl sy’n gadael y diwydiant na’r rheini sy’n ymuno â’r diwydiant. Mae hyn wedi bod yn wir bob blwyddyn ers 2018. Yn 2022/23, roedd menywod yn cynrychioli 56% o’r rheini a oedd wedi gadael y maes radio, o’i gymharu â 54% o’r rhai a ymunodd.[53] Rydym yn annog darlledwyr radio i gymryd camau i ddeall pam mae menywod yn parhau i gynrychioli cyfran uwch o’r rheini sy’n gadael, yn ogystal ag ystyried unrhyw fesurau a allai wella lefelau cadw staff yn y tymor hwy, yn enwedig wrth i’r amcanestyniadau a gomisiynwyd gennym ar gyfer ein hadolygiad pum mlynedd ganfod, heb newid, y byddai cyfran y menywod ym maes radio yn gostwng dros y pum mlynedd nesaf.

3.31 Yn y diwydiant teledu, mae pobl anabl ar hyn o bryd yn cynrychioli 10% o weithwyr; sydd heb newid ers 2020, o’i gymharu â 12% o’r rhai sy’n gadael. Fodd bynnag, am y tro cyntaf, roedd cyfran uwch o bobl anabl yn cael eu cynrychioli ymysg y rhai a ymunodd (13%) yn y diwydiant teledu.[54] Byddwn yn parhau i fonitro er mwyn deall a oes cynnydd tymor hwy yn cael ei wneud.

3.32 Ar draws y sector, mae pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn cynrychioli cyfran uwch o’r bobl sy’n ymuno â’r diwydiant ac yn gadael y diwydiant na’r gweithlu yn gyffredinol. Ym maes radio, mae pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn cynrychioli 13% o weithwyr, o’i gymharu â 22% o’r rhai a ymunodd â’r diwydiant a 22% o’r rhai a adawodd y diwydiant. Yn yr un modd, ym maes teledu, mae pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn cynrychioli 18% o weithwyr, o’i gymharu â 26% o’r rhai a ymunodd â’r diwydiant a 23% o’r rhai a adawodd y diwydiant. Mae hyn yn awgrymu bod trosiant sylweddol o weithwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, er bod y gynrychiolaeth gyffredinol wedi cynyddu.

3.33 Dylai darlledwyr weithio i ganfod beth sy’n sbarduno trosiant staff a lle mae problemau penodol o ran cadw staff yn bodoli yn eu sefydliadau eu hunain. Roeddem wedi argymell yn ein hadolygiad pum mlynedd bod darlledwyr yn ystyried gosod eu targedau cadw eu hunain. Fodd bynnag, mae ein hofferyn hunanasesu yn dangos mai dim ond ychydig dros draean (35%) o’r darlledwyr mwy sydd â’r rhain ar waith.[55] Rydym yn cydnabod nad yw pob sefydliad yn dewis gosod targedau a bod amrywiaeth o ffyrdd o fynd ati’n well i gadw staff; rydyn ni’n annog darlledwyr i rannu unrhyw fesurau eraill sydd wedi gweithio’n effeithiol

[53] Yn y diwydiant teledu, mae menywod yn cynrychioli 49% o weithwyr, 50% o’r rhai sy’n gadael a 53% o’r rhai sy’n ymuno.

[54] Yn y diwydiant radio, mae pobl anabl yn cynrychioli 8% o weithwyr, 8% o’r rhai sy’n gadael a 10% o’r rhai sy’n ymuno.

[55] Cwestiwn gwirfoddol, a atebwyd gan 34 o ddarlledwyr mwy.

iddyn nhw gydag eraill yn y diwydiant. Er enghraifft, rydym wedi hwyluso trafodaethau rhwng rhai darlledwyr ynghylch sut gall y broses ymadael gynnig cipolwg gwerthfawr ar y rhesymau pam mae pobl yn gadael sefydliad ac, yn ei dro, helpu i nodi mesurau sydd â'r nod o hybu lefelau cadw staff.

3.34 Gall diwylliant sefydliadau hefyd effeithio ar lefelau cadw staff ac a yw gweithwyr yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed. Gallai mentrau cadarnhaol gynnwys rhwydweithiau gweithwyr ac arolygon staff rheolaidd, yn ogystal â chyfleoedd i bobl ar bob lefel gyfrannu at strategaeth a chynllunio TegACh. Ar draws y meysydd hyn, mae'r darlledwyr mwy yn credu eu bod yn perfformio'n dda, gyda'r rhan fwyaf (97%) yn dweud eu bod yn darparu cymorth gydag adnoddau i rwydweithiau gweithwyr, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i bobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli gyfrannu at strategaeth, cynllunio a gwerthuso TegACh (92%).[56]

3.35 Mae'n gadarnhaol gweld bod gan y rhan fwyaf o ddarlledwyr mwy fesurau ar waith sy'n canolbwyntio ar lais a diwylliant y sefydliad, gyda 65% yn sgorio ar lefel 'cyflawni' yn yr elfen hon.[57] Serch hynny, mae'n bwysig bod darlledwyr yn parhau i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd mesurau o'r fath o ran cyflawni'r effaith a ddymunir, gan gynnwys drwy gasglu safbwyntiau gan amrywiaeth eang o gydweithwyr ar draws y sefydliad a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod y mesurau hyn yn parhau i gyflawni. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae lefelau cadw grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn dal yn isel. Serch hynny, rydym yn cydnabod nad yw'r un dull yn addas i bawb ac efallai y bydd darlledwyr llai yn defnyddio dulliau gwahanol sy'n fwy effeithiol ar gyfer sefydliadau ar raddfa lai.

## Gall sicrhau bod cyfleoedd dilyniant ar gael i'r holl staff helpu sefydliadau i gadw talent fwy amrywiol

3.36 Gall gwelededd amrywiaeth y staff sy'n cael eu dyrchafu ein helpu i ddeall pa grwpiau sy'n datblygu yn y diwydiant darlledu, a pha rai nad ydynt yn datblygu. Gall cyfleoedd datblygu gefnogi talent amrywiol i symud i fyny drwy sefydliad a chreu llif o dalent ar gyfer y rolau uwch hynny sydd â dylanwad sylweddol dros ddiwylliant a chynhwysiad yn y gweithle ond lle mae tangynrychiolaeth pobl o gefndiroedd amrywiol yn fwyaf amlwg.

3.37 Mae Ffigur 12 isod yn dangos bod dyrchafiadau ar gyfer menywod a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn cyd-fynd yn fras â'u cynrychiolaeth gyffredinol yn y diwydiannau teledu a radio. Er enghraifft, mae menywod yn cynrychioli 52% o ddyrchafiadau ym maes teledu (o'i gymharu â 49% o weithwyr) a 48% o ddyrchafiadau ym maes radio (o'i gymharu â 50% o weithwyr) ac mae pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn cynrychioli 16% o ddyrchafiadau ym maes teledu (o'i gymharu â 18% o weithwyr yn gyffredinol) a 12% o ddyrchafiadau ym maes radio (o'i gymharu â 13% o weithwyr yn gyffredinol). Yn y diwydiant teledu, mae gweithwyr anabl yn cynrychioli 10% o'r bobl sy'n cael eu dyrchafu, sy'n cyd-fynd â chanran y gweithwyr teledu sy'n anabl yn gyffredinol.


3.38 Yn y diwydiant radio, mae'n siomedig gweld bod pobl anabl yn cael eu tangynrychioli, yn enwedig ymysg y rheini sy'n cael eu dyrchafu. Yn 2022/23, dim ond 4% o'r gweithwyr a gafodd eu dyrchafu ym maes radio oedd yn anabl, sy'n sylweddol is na chyfran gyffredinol y gweithwyr radio sy'n anabl (8%). O'i gymharu â 2018, mae cyfran y bobl sydd wedi cael eu

[56] Cwestiynau gwirfoddol, a atebwyd gan 34 o ddarlledwyr mwy.
[57] Mae'r offeryn hunanasesu yn diffinio 'cyflawni' fel "rydych chi'n gwneud yn dda gyda'ch trefniadau TegACh".

dyrchafu sy'n anabl wedi disgyn 2 bwynt canran (o 6%), ac mae cyfran gyffredinol y gweithwyr radio sy'n anabl wedi aros yr un fath.

3.39 Nid ydym yn gwybod pa mor uchel yn y cwmnïau yw'r rhai sy'n cael eu dyrchafu, felly nid yw'n glir a yw mwy o amrywiaeth ymysg y rhai sy'n cael eu dyrchafu yn arwain at uwch reolwyr mwy cynrychioliadol. Mewn blynyddoedd i ddod, byddwn yn gallu ystyried data am ddyrchafiadau ochr yn ochr â chyfansoddiad uwch arweinwyr o ran amrywiaeth a nodi unrhyw debygrwydd; nid yw hyn yn bosibl ar hyn o bryd oherwydd newidiadau yn y ffordd rydym yn casglu data uwch reolwyr.

**Ffigur 12: Dyrchafiadau (%) yn y diwydiannau teledu a radio, pob darlledwr**




3.40 Ar nodyn cadarnhaol, dywedodd bron bob un (97%) o'r darlledwyr mwy eu bod yn sicrhau bod rheolwyr llinell yn mynd ati'n rhagweithiol i annog eu his-weithwyr uniongyrchol i fanteisio ar gyfleoedd "dysgu a datblygu", ac roedd 91% yn sicrhau bod gweithwyr o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn cael yr un cyfle i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.[58] Mae data'r arolwg o'r gweithlu hefyd yn dangos bod cyfran y menywod, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a phobl anabl sy'n cael hyfforddiant yn cyd-fynd yn fras â chynrychiolaeth ar draws y ddau ddiwydiant yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod pa fath o hyfforddiant a geir na beth yw ei ansawdd, na sut mae hyn yn amrywio ar draws y diwydiant. Rydym o'r farn y gallai dull mwy cydlynol o hyfforddi ar draws y diwydiant fod yn fuddiol.

3.41 Mae'n bwysig bod gweithwyr hefyd yn ymwybodol o gyfleoedd datblygu gyrfa clir i ddefnyddio unrhyw hyfforddiant a geir, a'u bod yn gallu cael gafael ar y cyfleoedd hynny. Fodd bynnag, dywedodd bron i draean (30%) o ddarlledwyr mwy nad oes ganddynt gynlluniau datblygu gyrfa wedi'u targedu at grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli[59] a dywedodd dros draean (38%) nad oes ganddynt drefniadau cynllunio olyniaeth na threfniadau recriwtio mewnol i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth, yn enwedig ar gyfer rolau uwch.

[58] Cwestiynau gwirfoddol, a atebwyd gan 34 o ddarlledwyr mwy.
[59] Cwestiwn gwirfoddol, a atebwyd gan 34 o ddarlledwyr mwy.

# 4. Y darlun ehangach

4.1 Mae dyletswyddau Ofcom i hyrwyddo cyfle cyfartal ym maes darlledu yn ymestyn i weithwyr cwmnïau darlledu yn unig, ond mae strwythur y sector – gyda rôl cwmnïau cynhyrchu annibynnol a'r gweithlu llawrydd llawer mwy sy'n ymwneud â darparu cynnwys wedi'i gomisiynu – yn golygu na allwn ystyried cynnydd TegACh darlledwyr gyda'u gweithwyr uniongyrchol ar wahân. Mae'n hanfodol meddwl am y rhan y mae darlledwyr yn ei chwarae o ran effeithio ar amrywiaeth yn y diwydiant ehangach.

4.2 Mae'n bwysig deall cyfansoddiad y sector yn ei gyfanrwydd, a dyna pam rydym bob amser wedi gofyn am rywfaint o ddata gwirfoddol – meintiol ac ansoddol – ar weithwyr llawrydd sy'n gweithio'n uniongyrchol i ddarlledwyr, yn ogystal ag ychwanegu rhai cwestiynau am y polisïau sydd ar waith o ran agweddau TegACh ar gomisiynu ac ymwneud â gweithwyr llawrydd. Mae data pellach ar gyfer y gweithlu llawrydd ehangach ym maes teledu, er enghraifft y rheini sy'n gweithio gyda chwmnïau cynhyrchu ar gomisiynau, yn cael ei gasglu ar gyfer chwech o'r darlledwyr teledu mwyaf drwy Project Diamond y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol (CDN).[60]

4.3 Mae gan ddarlledwyr bŵer sylweddol i benderfynu pwy a beth sy'n cael ei gomisiynu. Gallant ddylanwadu ar bwy sy'n gweithio ar y cynyrchiadau hynny ac, yn y pen draw, ar amrywiaeth a dilysrwydd y cynnwys sy'n cael ei greu. Gall darlledwyr, yn enwedig eu huwch arweinwyr, ddefnyddio'r dylanwad hwn i effeithio ar newid yn fewnol a'r tu hwnt, drwy rymuso a chyllido eu timau comisiynu i arloesi er mwyn sicrhau mwy o gyfle cyfartal i weithwyr llawrydd sy'n gweithio ar eu cynyrchiadau. Mae'r Prosiect Mynediad Teledu (TAP) – a lansiwyd mewn ymateb i ymgyrch Underlying Health Condition – yn enghraifft lle rydym wedi gweld hyn yn dechrau digwydd, gyda deg o ddarlledwyr a ffrydwyr yn addo gweithio gyda'i gilydd i sicrhau y darperir mwy o fynediad i dalent anabl.[61]

## Beth mae'r data'n ei ddangos

4.4 Mae'r data gweithlu llawrydd a gasglwyd gennym yn 2022/23 yn cynrychioli 14,651 o weithwyr llawrydd sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda darlledwyr.[62] Ac er bod bylchau sylweddol yn y data hwn ar gyfer gweithwyr llawrydd ym maes teledu, nad ydynt wedi cau i raddau helaeth ers 2018,[63] mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod gan bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol fwy o gynrychiolaeth yn y gweithlu gweithwyr llawrydd ym maes radio (19%) nag ym maes teledu (14%). Mae hyn yn wahanol i'r gweithlu cyflogedig, lle mae cynrychiolaeth pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn uwch yn y diwydiant teledu (18%) na'r diwydiant radio (13%).[64]

---

[60] System ar-lein yw Diamond sy'n cael ei defnyddio gan y BBC, ITV, Channel 4, Paramount, Sky ac UKTV i gael data amrywiaeth cyson ar y rhaglenni maen nhw'n eu comisiynu gan bartneriaid cynhyrchu annibynnol.
[61] Y deg darlledwr a ffrydiwr yw Amazon Prime Video, BBC, Britbox, Channel 4, Disney, ITV, Paramount, Sky, STV ac UKTV.
[62] Yn hytrach nag mewn timau cynhyrchu ar gomisiynau.
[63] Mae'r 'bylchau data' yn fwy ar gyfer gweithwyr llawrydd yn y diwydiant teledu na'r diwydiant radio. Yn 2022/23, ar gyfer gweithwyr llawrydd ym maes teledu, mae gennym 38% o ddata 'gweladwy' ar ryw, 16% ar hil ac ethnigrwydd, a 15% ar anabledd. Ar gyfer gweithwyr llawrydd ym maes radio, mae gennym 76% o ddata 'gweladwy' ar ryw, 74% ar hil ac ethnigrwydd, a 70% ar anabledd.
[64] O'i gymharu â chyfartaledd y boblogaeth sy'n gweithio, sef 14%.

4.5 Mae cynrychiolaeth menywod yn is ymysg gweithwyr llawrydd ym maes radio (44%) o'i gymharu â gweithwyr radio (50%) a chyfartaledd y boblogaeth weithio (48%). Mae menywod hefyd yn cael eu cynrychioli ychydig yn llai ymysg gweithwyr llawrydd ym maes teledu (47%) o'i gymharu â gweithwyr teledu (49%). Yn unol â chynrychiolaeth ymysg gweithlu cyflogedig darlledwyr, o'r rheini a ddarparodd ddata, mae pobl anabl yn cael eu tangynrychioli ymysg gweithwyr llawrydd yn y ddau ddiwydiant (9% teledu, 11% radio),[65] o'i gymharu â phoblogaeth y DU (16%).[66] Mae'r ffigurau hyn ar gyfer gweithwyr llawrydd ym maes teledu yn cyd-fynd yn fras â data a adroddwyd gan Brosiect Diamond CDN.[67]


4.6 Dangosodd adroddiad diweddaraf Diamond, the Sixth Cut, bod cynrychiolaeth pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol mewn rolau llawrydd wedi cynyddu. Nododd hefyd, er bod cyfraniadau pobl anabl wedi bod yn cynyddu'n araf, eu bod yn dal i gael eu tangynrychioli o'i gymharu ag ystadegau'r boblogaeth. Roedd yr adroddiad hefyd yn codi pryderon ynghylch gostyngiad yn nifer y menywod mewn rolau llawrydd uwch a diffyg cynnydd o ran cynrychiolaeth pobl anabl mewn rolau llawrydd uwch.[68]

4.7 O ran y camau TegACh a gymerwyd gan ddarlledwyr i gefnogi gweithwyr llawrydd, mae arolygon Ofcom yn dangos bod gan bron bob un o'r darlledwyr mwy un ai gynllun ar waith (84%), neu gynllun i roi gweithdrefnau cwyno ar waith (13%) i alluogi gweithwyr llawrydd i roi gwybod am aflonyddu, bwlio, gwahaniaethu neu erledigaeth. Rydym hefyd yn gwybod am nifer o fecanweithiau ar draws y diwydiant sydd ar gael, fel yr ap Call it!, sy'n monitro ac yn mesur diwylliant y gweithle yn seiliedig ar ymatebion gweithwyr, yn ogystal â gwasanaeth cyngor ar fwlio'r Elusen Ffilm a Theledu, a phecyn cymorth Amrywiaeth a Chynhwysiad Pact, sy'n cynnwys adran ar fwlio ac aflonyddu. Ar ben hynny, mae nifer o ddarlledwyr yn rhan o'r broses o greu 'Awdurdod Safonau Annibynnol y Diwydiannau Creadigol' (CIISA) newydd sy'n canolbwyntio ar gynnal a gwella safonau ymddygiad yn y sectorau hyn.

4.8 Fodd bynnag, fel y dangosir isod, mae gan lai na hanner y darlledwyr mwy bolisïau neu gamau gweithredu uniongyrchol ar waith i hyrwyddo TegACh ymysg gweithwyr llawrydd (45%), er bod ychydig mwy yn dylanwadu ar TegACh ymysg gweithwyr llawrydd drwy'r gofynion maen nhw'n eu rhoi ar bartneriaid cynhyrchu (49%).[69]


[65] Mae hyn yn cymharu â 10% ymysg gweithwyr teledu ac 8% ymysg gweithwyr radio.
[66] Yn seiliedig ar bobl economaidd weithgar rhwng 16 a 64 oed.
[67] Er bod yr adroddiad diweddaraf, The Sixth Cut, yn dangos cynrychiolaeth uwch o fenywod o'i gymharu â'r data sydd gennym, sy'n cyfrif am 52% o rolau oddi ar y sgrin a 50% o rolau ar y sgrin.
[68] Nid yw'r data gwirfoddol y mae Ofcom yn ei gasglu am weithwyr llawrydd yn cynnwys nodweddion yn ôl lefel swydd.
[69] Gan gydnabod nad yw pob darlledwr yn rhoi gwaith allan ar gontract i weithwyr llawrydd nac yn comisiynu cynnwys gan bartneriaid cynhyrchu, roedd y cwestiynau am gomisiynu a gweithwyr llawrydd yn yr offeryn hunanasesu yn wirfoddol. Atebodd 31 o'r darlledwyr mwy gwestiynau am weithwyr llawrydd; atebodd 24 o'r darlledwyr mwy gwestiynau am gomisiynu.

**Ffigur 13: Offeryn hunanasesu – ymatebion i gwestiynau am weithwyr llawrydd (darlledwyr mwy)**[70]




4.9 Fel y dangosir yn Ffigur 14, er mai dim ond chwarter y darlledwyr mwy a ymatebodd sy'n clustnodi cyllid ar gyfer comisiynu amrywiol, mae gan dros hanner (54%) bolisi comisiynu amrywiaeth sydd wedi'i ddylunio i gynyddu TegACh mewn timau cynhyrchu. Hefyd, dywedodd 59% fod ganddynt bolisïau comisiynu ar waith sy'n ymwneud â chynrychiolaeth ar sgrin/ar yr awyr, amrywiaeth pynciau, neu amrywiaeth mewn timau cynhyrchu.

**Ffigur 14: Offeryn hunanasesu – ymatebion i gwestiynau am gomisiynu (darlledwyr mwy)**[71]




4.10 Rydym yn cydnabod nad yw pob darlledwr yn comisiynu cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol ac nad oes ganddynt yr un berthynas â gweithwyr llawrydd. Fodd bynnag, i ddarlledwyr sy'n gwneud hynny, mae'r rhain yn feysydd lle mae cyfle sylweddol i gydweithio a rhannu gwybodaeth yn ehangach fel rhan o ymdrechion i greu sector creadigol mwy amrywiol a chynhwysol. Byddwn yn parhau i arsylwi sut mae'r maes hwn yn datblygu a

[70] Cwestiynau a atebwyd gan 31 o ddarlledwyr 'mwy'.
[71] Cwestiynau a atebwyd gan 24 o ddarlledwyr 'mwy'.

byddwn yn ymgysylltu â darlledwyr i ystyried sut a ble gallai cydweithio a rhannu fod yn fwyaf gwerthfawr.

# 5. Casgliadau a'r camau nesaf

5.1 Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi tynnu sylw at dri maes blaenoriaeth, os yw darlledwyr am adeiladu ar ddatblygiadau'r saith mlynedd diwethaf a llwyddo i wreiddio amrywiaeth a chynhwysiad yn eu gweithluoedd. Yn yr adran olaf hon rydym yn crynhoi'r tri maes blaenoriaeth hynny ac yn amlinellu'r hyn y byddwn yn ei wneud i gefnogi darlledwyr.

## Blaenoriaeth 1 - Data

5.2 Byddwn yn parhau i gasglu a chyhoeddi'r data hwn am y gweithlu i gynnig gwybodaeth ar lefel darlledwyr a'r diwydiant. Eleni rydym wedi gofyn am adborth gan ddefnyddwyr ar ein hofferyn hunanasesu newydd a dros amser byddwn hefyd yn olrhain i ba raddau y mae sgoriau 'aeddfedrwydd' uchel yn adlewyrchu gweithluoedd mwy cynrychioliadol yn ymarferol. Fel rydym wedi'i amlinellu yn yr adroddiad hwn, rydym eisoes yn gweld bod cydberthynas rhwng ymgysylltu mewn meysydd penodol (ee casglu data) a gweithlu mwy amrywiol.

5.3 Rydym yn annog darlledwyr i gynnal y momentwm gyda'u data am y gweithlu, er mwyn deall yn well lle mae rhwystrau'n dal i fodoli a sut gellid eu chwalu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod prosesau casglu data yn gadarn, gan gyfyngu ar fylchau data lle bo'n bosibl a dadansoddi data'n fanylach.

5.4 Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, gellir gweld ein hadnodd hunanasesu ar ffurf testun. Ymhen amser, hoffem allu sicrhau bod fersiwn ryngweithiol o'r arolwg hwn ar gael i sectorau rheoledig eraill a'r tu hwnt. Er bod rhai o'r heriau sy'n wynebu darlledwyr yn unigryw, mae eraill yn rhai mwy cyffredinol sy'n wynebu ystod o sefydliadau gwahanol iawn. Rydym yn gweld gwerth cael ymdrech ehangach a mwy unedig i rannu adnoddau er mwyn hyrwyddo ymarfer effeithiol.

## Blaenoriaeth 2 - Uwch arweinwyr

5.5 Byddwn yn parhau â'n hymgysylltiad TegACh wedi'i dargedu gydag uwch arweinwyr a rheolwyr ym maes darlledu. Mae hyn, ynghyd â data o'n dau arolwg, yn ein helpu i ddeall lle mae angen rhannu arferion yn effeithiol, neu lle mae'n well mynd i'r afael â materion ar lefel diwydiant – er enghraifft, gan arwain at greu gweithgorau penodol ar feysydd fel cadw staff.

5.6 Mae cyfleoedd clir i uwch arweinwyr a rheolwyr mewn rhai cwmnïau darlledu sicrhau bod prosesau casglu data yn gadarn ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ymgysylltu mwy â data TegACh eu sefydliad, a defnyddio'r mewnwelediadau hyn i sbarduno newid diwylliannol dilys. Mae ein hadroddiad yn dangos bod sefydliadau lle mae uwch dimau arwain yn ymgysylltu'n helaeth â data TegACh eu sefydliad yn debygol o fod â gweithlu mwy cynrychioliadol.

## Blaenoriaeth 3 - Cadw a Datblygu


5.7 Er mwyn cynnal cynrychiolaeth well o weithwyr o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ym maes darlledu ar hyn o bryd, mae angen i bobl allu ymuno â'r diwydiant a ffynnu ynddo. Mae'r data presennol yn awgrymu bod lefel uwch o drosiant staff ymysg rhai grwpiau, sy'n cael eu cynrychioli'n anghymesur ymysg y rheini sy'n gadael y diwydiant. Bydd y rheini a

gwblhaodd ein hofferyn hunanasesu yn gallu defnyddio'r adborth pwrpasol sydd ar gael i'w helpu i nodi meysydd y dylent roi sylw iddynt a darparu adnoddau ar eu cyfer ar lefel y sefydliad.

5.8 Byddwn yn ysgogi mwy o gydweithio rhwng darlledwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill yn y sector mewn perthynas ag amrywiaeth gweithwyr llawrydd, a pholisïau a phrosesau comisiynu. Rydym yn benderfynol o weld bod newid yn cael ei wreiddio ar draws y llifau talent drwy'r gadwyn gynhyrchu.

# A1. Amserlen

**Ffigur 15: Amserlen ein gwaith TegACh**



# A2. Tablau data

A2.1 Mae’r tablau data hyn yn gwneud cymariaethau o un flwyddyn i’r llall lle bo hynny’n bosibl (ac eithrio data 2022) ar gyfer y diwydiannau teledu a radio yn gyffredinol, a’r darlledwyr teledu a radio mwyaf (ar sail cyfran o’r gynulleidfa), yn ogystal ag S4C ac STV.[72] I gael rhagor o fanylion am ba ddata sy’n debyg i’r blynyddoedd blaenorol, edrychwch ar Ffigur 1 yn ein hadroddiad methodoleg. Mae’r adroddiad methodoleg hefyd yn rhoi manylion y meincnodau a ddarperir yn y tablau data hyn.

A2.2 Defnyddir y term ‘data anhysbys’ yn y tablau data hyn i gyfeirio at y data cyfunol sy’n dod o dan y categorïau ‘heb ei ddatgelu’, ‘dim cydsyniad’ a ‘heb ei gasglu’. Mae hyn yn dynodi data nad ydym ni (na’r darlledwr yn achos data sydd heb ei ddatgelu) yn gallu pennu’r effaith y mae’n ei chael ar broffil y nodwedd honno. Y gweddill – ‘data gweladwy’ – sy’n ein helpu i greu darlun cywir o’r diwydiant. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw gwelededd data o fewn rheolaeth y darlledwyr yn llwyr, gan fod gan weithwyr hawl i beidio â datgelu eu data i gyflogwyr neu i beidio â chydsynio iddo gael ei rannu ag Ofcom. Mae’r holl gyfrannau a ddangosir yn y tablau hyn yn seiliedig ar ddata gweladwy, ac eithrio ‘data anhysbys’.

A2.3 Rydym yn defnyddio *** i ddynodi lle nad oes digon o ddata, gan gynnwys lle nad oes data ar gael neu lle mae canrannau sy’n ymwneud ag un darlledwr yn cyfateb i lai na deg o weithwyr, neu lle byddai modd adnabod unigolion fel arall.

A2.4 Sylwch fod y canrannau a ddangosir ar gyfer pob nodwedd yn cael eu cyfrifo ar sail wahanol i’r canrannau ‘data anhysbys’ a ddangosir. Mae’r canrannau ‘data anhysbys’ yn cael eu cyfrifo allan o gyfanswm nifer y gweithwyr, naill ai yn y diwydiant teledu neu radio yn gyffredinol, neu ym mhob darlledwr unigol. Fel y nodir uchod, mae’r canrannau ar gyfer pob nodwedd (ee menywod, menywod sy’n uwch-reolwyr) yn seiliedig ar gyfanswm y ‘data gweladwy’ yn y categori hwnnw. O’r herwydd, ni fydd y canrannau ar gyfer y nodweddion a’r ‘data anhysbys’ yn dod i gyfanswm o 100%.

[72] Ar gyfer teledu, mae hyn yn cynnwys teledu’r BBC, ITV, Channel 4, Paramount a Sky (ffynhonnell: Crynodeb Gwylio Misol BARB). Ar gyfer radio, mae hyn yn cynnwys radio’r BBC a Global (ffynhonnell: Gwrando Chwarterol RAJAR). Fel arfer yn y gyfres hon o adroddiadau, cyfeirir at y grŵp hwn fel “y prif wyth”, ac roedd hefyd yn cynnwys Bauer Media mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, nid yw canlyniadau’r grŵp hwn yn cynnwys data gan Bauer Media ar gyfer adroddiad ysgrifenedig eleni.

**Ffigur 16: Y diwydiant teledu, 2022/23**

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Newid pwynt canran ers 2021 | Teledu'r BBC[73] | Channel 4 | ITV | Paramount | Sky |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw** | | | | | | | | |
| Menywod | 48% | 49% | +3pc | 46% | 59% | 55% | 51% | 46% |
| Menywod sy'n uwch reolwyr | - | 42% | - | 49% | 52% | 48% | 44% | 41% |
| Rhyngryw | - | <1% | - | <1% | *** | *** | *** | *** |
| Data anhysbys | - | 1% | -1pc | 3% | <1% | 1% | <1% | 0% |
| **Hunaniaeth rhywedd** | | | | | | | | |
| Hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni | 1% | 1% | - | 1% | *** | *** | *** | *** |
| Data anhysbys | - | 51% | - | 15% | 77% | 39% | 32% | 100% |
| **Ethnigrwydd** | | | | | | | | |
| Grŵp Ethnig Lleiafrifol | 14% | 18% | Dim newid | 16% | 21% | 16% | 24% | 21% |

[73] Noder: Mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd yn Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb y BBC 2022/23, (EIR). Mae'r ffigurau ar gyfer "Teledu'r BBC" a "Radio'r BBC" a "Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU" a nodir yma (Ffigurau 16, 17 a 18) yn is-setiau o'r ffigurau a gyhoeddwyd yn Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb y BBC. Fe wnaeth y BBC eithrio gweithwyr ar absenoldeb di-dâl a'r rhai mewn rolau nad ydynt yn cael eu cyllido'n gyfan gwbl gan y BBC o'i gyflwyniad ar ddata gweithlu gwasanaethau cyhoeddus EDI/y Deyrnas Unedig i Ofcom. Cafodd y gweithwyr hyn eu cynnwys yn ffigurau gwasanaeth cyhoeddus EIR y BBC yn y Deyrnas Unedig. Mae'r gwaith adrodd ar gyfer yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb hefyd yn seiliedig ar 'ddata cyfanswm y gweithlu' yn wahanol i'r dull o ddefnyddio 'data gweladwy'r gweithlu' a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (fel y nodir ar dudalen 5, ac uchod yn A2.2 ac A2.4). Mae ffigurau'r BBC ar sy'n seiliedig ar ddata gweladwy a data cyflawn ar gael yn ein hofferyn rhyngweithiol cysylltiedig.

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Newid pwynt canran ers 2021 | Teledu'r BBC[73] | Channel 4 | ITV | Paramount | Sky |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol sy'n uwch-reolwyr | - | 13% | - | 7% | 21% | 16% | 16% | 11% |
| Data anhysbys | - | 15% | +3pc | 3% | 8% | 10% | 4% | 12% |

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Newid pwynt canran ers 2021 | Teledu'r BBC | Channel 4 | ITV | Paramount | Sky |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anabledd** | | | | | | | | |
| Gweithwyr anabl | 16% | 10% | Dim newid | 10% | 15% | 12% | 12% | 8% |
| Pobl anabl sy'n uwch reolwyr | - | 8% | - | 8% | *** | 7% | *** | 6% |
| Data anhysbys | - | 25% | +1pc | 6% | 13% | 13% | 16% | 26% |
| **Oedran** | | | | | | | | |
| Dan 50 oed | 68% | 78% | -1pc | 69% | 86% | 84% | 85% | 85% |
| 50 oed a hŷn | 32% | 22% | +1pc | 31% | 14% | 16% | 15% | 15% |
| Data anhysbys | - | 10% | Dim newid | 0% | 0% | 2% | 0% | 0% |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | | | | | | | |
| LDH+ | 3% | 10% | +1pc | 11% | 14% | 10% | 9% | 7% |
| Data anhysbys | - | 32% | -1pc | 14% | 14% | 14% | 11% | 25% |

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Newid pwynt canran ers 2021 | Teledu'r BBC | Channel 4 | ITV | Paramount | Sky |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crefydd** | | | | | | | | |
| Crefyddol | 61% | 44% | -1pc | 43% | 48% | 47% | 43% | 46% |
| Dim crefydd | 39% | 56% | +1pc | 57% | 52% | 53% | 57% | 54% |
| Data anhysbys | - | 35% | Dim newid | 9% | 16% | 46% | 15% | 29% |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – Galwedigaeth rhieni** | | | | | | | | |
| Cefndir dosbarth gweithiol | 39% | 29% | +1pc | 29% | 29% | 30% | 27% | 42% |
| Data anhysbys | - | 56% | -2pc | 20% | 32% | 55% | 35% | 96% |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – Addysg** | | | | | | | | |
| Ysgol nad yw'n annibynnol | 93% | 87% | Dim newid | 87% | 85% | 88% | 87% | 89% |
| Data anhysbys | - | 52% | -4pc | 16% | 39% | 43% | 26% | 95% |
| **Cyfrifoldebau gofalu** | | | | | | | | |
| Cyfrifoldebau gofalu | 8% | 39% | - | *** | *** | 40% | *** | *** |
| Data anhysbys | - | 91% | - | 100% | 100% | 42% | 100% | 100% |

**Ffigur 17: Y diwydiant radio, 2022/23**

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Pob gweithiwr radio yn y DU | Newid pwynt canran ers 2021 | Radio'r BBC[74] | Global |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw** | | | | | |
| Menywod | 48% | 50% | Dim newid | 52% | 51% |
| Menywod sy'n uwch reolwyr | - | 36% | -1pc | 63% | 34% |
| Rhyngryw | - | <1% | - | <1% | *** |
| Data anhysbys | - | 1% | Dim newid | 2% | 0% |
| **Hunaniaeth rhywedd** | | | | | |
| Hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni | 1% | 2% | - | 1% | *** |
| Data anhysbys | - | 49% | - | 19% | 100% |
| **Hil ac ethnigrwydd** | | | | | |
| Grŵp Ethnig Lleiafrifol | 14% | 13% | +3pc | 11% | 17% |
| Pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol sy'n uwch-reolwyr | - | 7% | - | *** | *** |
| Data anhysbys | - | 4% | +14pc | 2% | 2% |

[74] Mae ffigurau'r BBC yn y tabl hwn yn wahanol i'r ffigurau a gyhoeddwyd yn Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb y BBC 2022/23 (EIR). Gweler troednodyn 73 uchod am fanylion.

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Pob gweithiwr radio yn y DU | Newid pwynt canran ers 2021 | Radio BBC | Global |
|---|---|---|---|---|---|
| **Anabledd** | | | | | |
| Gweithwyr anabl | 16% | 8% | Dim newid | 10% | 4% |
| Pobl anabl sy'n uwch reolwyr | - | 9% | - | *** | *** |
| Data anhysbys | - | 8% | -7pp | 5% | 5% |
| **Oedran** | | | | | |
| Dan 50 oed | 68% | 73% | -2pc | 63% | 89% |
| 50 oed a hŷn | 32% | 27% | +2pc | 37% | 11% |
| Data anhysbys | - | 4% | -1pc | 0% | 0% |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | | | | |
| LDH+ | 3% | 11% | +2pc | 11% | 10% |
| Data anhysbys | - | 19% | -7pp | 18% | 9% |
| **Crefydd** | | | | | |
| Crefyddol | 61% | 44% | -1pc | 42% | 45% |
| Dim crefydd | 39% | 56% | +1pc | 58% | 55% |
| Data anhysbys | - | 16% | -7pp | 9% | 12% |

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Pob gweithiwr radio yn y DU | Newid pwynt canran ers 2021 | Radio BBC | Global |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – Galwedigaeth rhieni** | | | | | |
| Cefndir dosbarth gweithiol | 39% | 24% | Dim newid | 24% | *** |
| Data anhysbys | - | 56% | -8pc | 24% | 100% |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – Addysg** | | | | | |
| Ysgol nad yw'n annibynnol | 93% | 83% | Dim newid | 83% | *** |
| Data anhysbys | - | 51% | -10pc | 20% | 100% |
| **Cyfrifoldebau gofalu** | | | | | |
| Cyfrifoldebau gofalu | 8% | 27% | - | *** | *** |
| Data anhysbys | - | 94% | - | 100% | 100% |

**Ffigur 18: Teledu'r BBC, Radio'r BBC a gweithlu cyfun y BBC, 2022/23**[75]

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Pob gweithiwr radio yn y DU | Teledu'r BBC | Radio BBC | Teledu a radio'r BBC gyda'i gilydd (Gwasanaethau cyhoeddus y DU) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw** | | | | | | |
| Menywod | 48% | 49% | 50% | 46% | 52% | 48% |
| Menywod sy'n uwch reolwyr | - | 42% | 36% | 49% | 63% | 50% |
| Rhyngryw | - | <1% | <1% | <1% | <1% | <1% |
| Data anhysbys | - | 1% | 1% | 3% | 2% | 2% |
| **Hunaniaeth rhywedd** | | | | | | |
| Hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni | 1% | 1% | 2% | 1% | 1% | 1% |
| Data anhysbys | - | 51% | 49% | 15% | 19% | 16% |
| **Hil ac ethnigrwydd** | | | | | | |
| Grŵp Ethnig Lleiafrifol | 14% | 18% | 13% | 16% | 11% | 15% |
| Pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol sy'n uwch-reolwyr | - | 13% | 7% | 7% | *** | 7% |
| Data anhysbys | - | 15% | 4% | 3% | 2% | 3% |

[75] Mae'r ffigurau yn y tabl hwn ar gyfer 'Teledu'r BBC', 'Radio'r BBC' a 'Teledu a Radio'r BBC gyda'i gilydd' (gwasanaethau cyhoeddus y DU) yn wahanol i'r ffigurau a gyhoeddwyd yn Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb y BBC 2022/23 (EIR). Gweler troednodyn 73 uchod am fanylion.

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Pob gweithiwr radio yn y DU | Teledu'r BBC | Radio BBC | Teledu a radio'r BBC gyda'i gilydd (Gwasanaethau cyhoeddus y DU) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anabledd** | | | | | | |
| Gweithwyr anabl | 16% | 10% | 8% | 10% | 10% | 10% |
| Pobl anabl sy'n uwch reolwyr | - | 8% | 9% | 8% | *** | 9% |
| Data anhysbys | - | 25% | 8% | 6% | 5% | 6% |
| **Oedran** | | | | | | |
| Dan 50 oed | 68% | 78% | 73% | 69% | 63% | 68% |
| 50 oed a hŷn | 32% | 22% | 27% | 31% | 37% | 32% |
| Data anhysbys | - | 10% | 4% | 0% | 0% | 0% |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | | | | | |
| LDH+ | 3% | 10% | 11% | 11% | 11% | 11% |
| Data anhysbys | - | 32% | 19% | 14% | 18% | 15% |
| **Crefydd** | | | | | | |
| Crefyddol | 61% | 44% | 44% | 43% | 42% | 43% |
| Dim crefydd | 39% | 56% | 56% | 57% | 58% | 57% |
| Data anhysbys | - | 35% | 16% | 9% | 9% | 9% |

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Pob gweithiwr radio yn y DU | Teledu'r BBC | Radio BBC | Teledu a radio'r BBC gyda'i gilydd (Gwasanaethau cyhoeddus y DU) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – Galwedigaeth rhieni** | | | | | | |
| Cefndir dosbarth gweithiol | 39% | 29% | 24% | 29% | 24% | 28% |
| Data anhysbys | - | 56% | 56% | 20% | 24% | 21% |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – Addysg** | | | | | | |
| Ysgol nad yw'n annibynnol | 93% | 87% | 83% | 87% | 83% | 87% |
| Data anhysbys | - | 52% | 51% | 16% | 20% | 17% |
| **Cyfrifoldebau gofalu** | | | | | | |
| Cyfrifoldebau gofalu | 8% | 39% | 27% | *** | *** | *** |
| Data anhysbys | - | 91% | 94% | 100% | 100% | 100% |

**Ffigur 19: Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn y Gwledydd, 2022/23**

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio’r DU | Meincnod yr Alban | Meincnod Cymru | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Newid pwynt canran ers 2021 | STV | S4C |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw** | | | | | | | |
| Menywod | 48% | 51% | 51% | 49% | +3pc | 54% | 59% |
| Menywod sy’n uwch reolwyr | - | - | - | 42% | - | 56% | *** |
| Data anhysbys | - | - | - | 1% | -1pc | 1% | 65% |
| **Hil ac ethnigrwydd** | | | | | | | |
| Grŵp Ethnig Lleiafrifol | 14% | 7% | 5% | 18% | Dim newid | 10% | *** |
| Data anhysbys | - | - | - | 15% | +3pc | 4% | 70% |
| **Anabledd** | | | | | | | |
| Gweithwyr anabl | 16% | 21% | 22% | 10% | Dim newid | 15% | *** |
| Data anhysbys | - | - | - | 25% | +1pc | 17% | 66% |
| **Oedran** | | | | | | | |
| Dan 50 oed | 68% | 67% | 67% | 78% | -1pc | 81% | *** |
| 50 oed a hŷn | 32% | 33% | 33% | 22% | +1pc | 19% | *** |
| Data anhysbys | - | - | - | 10% | Dim newid | 0% | 100% |

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Meincnod yr Alban | Meincnod Cymru | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Newid pwynt canran ers 2021 | STV | S4C |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | | | | | | |
| LDH+ | 3% | 4% | 5% | 10% | +1pc | 13% | *** |
| Data anhysbys | - | - | - | 32% | -1pc | 19% | 65% |
| **Crefydd** | | | | | | | |
| Crefyddol | 61% | 40% | 49% | 44% | -1pc | 38% | 50% |
| Dim crefydd | 39% | 60% | 51% | 56% | +1pc | 62% | 50% |
| Data anhysbys | - | - | - | 35% | Dim newid | 21% | 65% |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – Galwedigaeth rhieni** | | | | | | | |
| Cefndir dosbarth gweithiol | 39% | - | 44% | 29% | +1pc | 31% | 29% |
| Data anhysbys | - | - | - | 56% | -2pc | 25% | 67% |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – Addysg** | | | | | | | |
| Ysgol nad yw'n annibynnol | 93% | - | - | 87% | Dim newid | 90% | *** |
| Data anhysbys | - | - | - | 52% | -4pc | 19% | 64% |
| **Cyfrifoldebau gofalu** | | | | | | | |
| Cyfrifoldebau gofalu | 8% | - | - | 39% | - | *** | *** |
| Data anhysbys | - | - | - | 91% | - | 100% | 100% |